



Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Papur Tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2026-27 – y Prif Grŵp Gwariant (MEG) Iechyd a Gofal Cymdeithasol

27/11/2025

Crynodeb

Mae'r ddogfen hon yn ymateb i gais y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol am wybodaeth i lywio'r gwaith o graffu ar Gyllideb Ddrafft 2026-27.

Nodyn i'r darllenydd - Cyfeirir at y Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynnyddoedd Cynnar, a'r portffolio, fel HSCEY drwy gydol y papur hwn. Cynrychiolir cyllidebau'r Grŵp HSCEY gan y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Cyfeirir ato fel y MEG HSC drwy gydol y papur hwn.

Cynnwys

1. Fframwaith Cynllunio'r GIG	3
Mynediad amserol at ofal:	4
Iechyd y Boblogaeth ac Atal Problemau	6
Meithrin Gallu Cymunedau	7
Mynediad at Wasanaethau Iechyd Meddwl	8
Iechyd Menywod	9
2. Gofal cymdeithasol	13
1.Y dyraniad arfaethedig ar gyfer gofal cymdeithasol	13
3. Adeiladu ar argymhellion yr adroddiad blaenorol	19
3.1 Blaenoriaethau'r gyllideb	19
3.2 Gweithlu'r GIG a Phwysau Cyflog	23
3.3 Gwariant ataliol	23
3.4 Iechyd Menywod	25
3.5 Iechyd meddwl	27
3.6 Anghydraddoldebau iechyd	28
3.7 Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Cyflogwyr	31
3.8 Y Gweithlu Gofal Cymdeithasol	32
3.9 Gofal seibiant i ofalwyr di-dâl	34
3.10 Codi tâl am ofal a chynnydd y Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol	34
4. Sefyllfa ariannol Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau	37
5. Buddsoddi Cyfalaf yn Ystad y GIG	44
5.1 Ffrydiau cyllido	44
5.2 Gwaith cynnal a chadw sydd wedi ôl-gronni	48
5.3 Seilwaith a Chyfarpar Digidol	50
5.4 Cynllunio Tymor Hir	52

1. Fframwaith Cynllunio'r GIG

Ar sail y blaenoriaethau a nodir yn fframwaith cynllunio GIG Cymru 2025 i 2028, a all Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y canlynol:

Enghreifftiau o sut y defnyddiwyd Cyllideb 2025-26 i flaenoriaethu partneriaethau â gofal cymdeithasol, a sut mae'r buddsoddiadau hyn yn cael eu cynnal, eu hehangu neu eu haddasu yng Nghyllideb ddrafft 2026-27 i gefnogi gofal integredig a thrawsnewid systemau yn y tymor hir.

Ymateb

- Rydym wedi cynnal y **Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, sy'n werth £146.8m**, sy'n parhau i chwarae rhan allweddol yn y gwaith o alluogi partneriaid iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector i gydweithio i ddatblygu modelau gofal integredig. Mae'r modelau gofal integredig hyn wedi'u cynllunio i rymuso unigolion i reoli eu hiechyd a'u llesiant eu hunain, byw'n annibynnol gartref, osgoi derbyniadau diangen i'r ysbyty, a dychwelyd adref yn gyflym yn dilyn ymyriadau gofal eilaidd.
- Yn ogystal â'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, mae cyllid arall a ddyrannwyd i hyrwyddo a chryfhau gofal integredig a gweithio mewn partneriaeth yn cynnwys:
 - **£11.95m drwy'r rhaglen 'Ymhellach yn Gyflymach'**, gan wella capasiti nyrsio ardal a diwedd oes ar benwythnosau, a chefnogi'r gwaith o ganfod a chynllunio gofal yn rhagweithiol ar gyfer unigolion sydd mewn mwy o berygl o fod angen gofal brys.
 - **Y Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso**, sy'n darparu **£70m bob blwyddyn** i gefnogi cydleoli ac integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol mewn cymunedau.
 - **£5m i ehangu capasiti gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd**, gan sicrhau cymorth amserol ac effeithiol ar draws lleoliadau gofal.
 - Dyraniad o **£30m** i awdurdodau lleol ledled Cymru i gefnogi gwelliannau mewn prosesau rhyddhau o'r ysbyty a chryfhau capasiti cymunedol i atal derbyniadau y gellir eu hosgoi. Mae'r cyllid hwn yn cael ei ddarparu drwy'r **Grant Trawsnewid Llwybrau Gofal**, sy'n cefnogi gweithgarwch sy'n canolbwyntio ar asesiadau amserol a darparu pecynnau gofal i sicrhau bod unigolion yn gallu gadael yr ysbyty pan fyddant yn ffit yn glinigol. Mae hyn yn helpu i leihau lefel yr oedi wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty, ar yr un pryd â chefnogi pobl i aros yn iach gartref drwy wasanaethau cymorth cryfach yn y gymuned. Bydd y buddsoddiad hwn yn cael ei gynnal yn 2026-27.
- Gyda'i gilydd, mae'r buddsoddiadau hyn yn sail i ddatblygu System Gofal Cymunedol Integredig Cymru, sy'n cyd-fynd â'r uchelgeisiau a nodir yn Cymru Iachach: y cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r System Gofal Cymunedol Integredig yn adeiladu ar fodelau arferion da sydd wedi'u profi ledled Cymru, gan ehangu'r hyn sy'n gweithio i gyflawni trawsnewid ystyrlon.

- Mae'r **Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol** yn parhau i fod yn ganolog i'r gwaith hwn, gan sbarduno'r gwaith o ddatblygu'r System Gofal Cymunedol Integredig ar lefel ranbarthol. Maent yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o gysoni cyllid, meithrin synergedd, a chynyddu effaith gweithio mewn partneriaeth. Mae'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn parhau i wasanaethu fel mecanwaith allweddol lle mae iechyd, gofal cymdeithasol, tai, y trydydd sector a phartneriaid ehangach yn dod at ei gilydd i gynllunio, comisiynu a darparu gwasanaethau integredig, gan gefnogi newid hirdymor a chynaliadwy yn y system.
- Mae ein **rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf** yn hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth drwy ei dull amlasiantaeth sy'n dod â sefydliadau iechyd, addysg, gwasanaethau cymdeithasol a thrydydd sector at ei gilydd. Mae'r ffordd gydweithredol hon o weithio yn cael ei hadlewyrchu yn y ffordd y mae'n cysoni ac yn cynllunio cymorth ar y cyd i deuluoedd, yn enwedig y rhai sydd ag anghenion cymhleth. Er mwyn gwreiddio gofal integredig ymhellach a sbarduno trawsnewid hirdymor yn y system, rydym wedi darparu ymrwymiad cyllideb tair blynedd (2024-25 i 2026-27) drwy'r **Grant Plant a Chymunedau**, gan ddarparu sefydlogrwydd ar gyfer cynllunio, cyflawni a gweithio mewn partneriaeth. Mae'r cyllid hwn yn sail i ymdrechion i gryfhau'r cysylltiadau rhwng gofal cymdeithasol a gwasanaethau cymunedol ehangach, gan helpu i sicrhau llwybrau cymorth di-dor a sicrhau canlyniadau gwell i blant a theuluoedd ledled Cymru.

Diweddariad ar gynnydd yn erbyn yr 16 o ddisgwyliadau cyflawni (y canlyniadau a'r gwelliannau penodol y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i sefydliadau'r GIG eu cyflawni) a nodir yn Atodiad 1 Fframwaith Cynllunio GIG Cymru 2025-2028, o dan bob un o'r blaenoriaethau strategol: mynediad prydlon at ofal, iechyd y boblogaeth ac atal problemau, meithrin gallu cymunedol, mynediad at wasanaethau iechyd meddwl, ac iechyd menywod. Yn y fframwaith, amlinellodd Ysgrifennydd y Cabinet feysydd penodol lle'r oedd yn disgwyl gweld gwelliannau mesuradwy mewn perfformiad a chanlyniadau yn ystod blwyddyn 1 (2025-26). Fel rhan o'r gwaith o graffu ar gyllideb 2026-27, mae'n hanfodol asesu a yw'r disgwyliadau hyn wedi cael eu bodloni, pa effaith maent wedi'i chael, a sut mae dysgu o flwyddyn 1 yn llywio penderfyniadau buddsoddi a blaenoriaethau cyflawni ar gyfer blwyddyn 2.

Ymateb

Fel y mae'r pwyllgor yn cydnabod, mae hwn yn fframwaith tair blynedd. Rydym ran o'r ffordd drwy flwyddyn gyntaf y fframwaith (2025-26) ac felly dim ond canlyniadau blwyddyn rannol sydd gennym.

Mynediad amserol at ofal:

- Mae buddsoddiad ychwanegol o £120m wedi cael ei wneud i leihau amseroedd aros yng Nghymru erbyn mis Mawrth 2026. Bydd hyn yn cael

gwared ar arosiadau dwy flynedd; yn lleihau'r rhestr aros gyffredinol 200,000 ac yn adfer y targed wyth wythnos ar gyfer profion.

- Ym mis Medi 2025, mae 15,000 o apwyntiadau cleifion allanol ychwanegol yn cael eu darparu ledled Cymru, yn ychwanegol at weithgarwch craidd arferol y GIG sy'n dangos sut yr ydym yn cyflawni ein haddewid y bydd pobl yn cael eu gweld yn gyflymach.
- Rydym yn disgwyl gweld amrywiadau yn y ffigurau ar gyfer yr amseroedd aros hiraf o fis i fis wrth i'r GIG ddelio â'r achosion mwyaf cymhleth. Er bod ychydig dros 8,000 o lwybrau'n aros mwy na dwy flynedd yng Nghymru ym mis Gorffennaf (cynnydd bach o'i gymharu â mis Mehefin), dyma'r ail ffigur isaf ers mis Ebrill 2021.
- Mae'r rhestr aros gyffredinol ar gyfer gofal a gynlluniwyd yn parhau i ostwng ac er bod cynnydd bach yn nifer y bobl sy'n aros mwy na dwy flynedd am driniaeth ym mis Awst, roedd hyn yn cyd-fynd â'r rhagolygon ar gyfer misoedd yr haf.
- Mae perfformiad ym maes canser yn parhau i wella gyda pherfformiad yn 61.8% yn erbyn y targed canser o 62 diwrnod. Roedd hyn yn uwch na 60% am y seithfed mis yn olynol. Ym mis Awst, cafodd 13,524 o bobl y newyddion da nad oedd ganddynt ganser.
- Nid oes neb yn aros mwy na dwy flynedd am driniaeth neu fwy na blwyddyn am apwyntiad claf allanol ym myrddau iechyd Bae Abertawe a Phowys. Mewn pedwar bwrdd iechyd – Hywel Dda, Aneurin Bevan, Cwm Taf Morgannwg, a Chaerdydd a'r Fro – mae llai nag 1% o bobl yn aros yn hirach na dwy flynedd am driniaeth.
- O ran diagnosteg, bu cynnydd cymysg o ran cyflawni'r nodau strategol ledled Cymru. Mewn rhai byrddau iechyd, nid yw'r amseroedd aros o fwy nag wyth wythnos am ddiagnosteg wedi gostwng eto, ond mewn rhai byrddau iechyd – er enghraifft, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan – mae amseroedd aros o fwy nag wyth wythnos am ddiagnosteg wedi gostwng 57.8% dros y 12 mis diwethaf.
- Dros y pedair blynedd diwethaf, rydym wedi sicrhau bod £100m mewn cyllid *Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal Argyfwng* ar gael i'r byrddau iechyd i wella gofal brys a gofal argyfwng. Mae gan bob bwrdd iechyd gynlluniau lleol ar waith, pob un **wedi'i gefnogi gan £2.7m o gyllid ychwanegol ar gyfer 2025-26** ac yn cyd-fynd â blaenoriaethau gofal brys ac argyfwng.
- Mae'r cyllid chwe nod yn rhan o **gyllid ehangach gwerth mwy na £200m yn 2025-26** i helpu byrddau iechyd a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i ymdrin â mwy o bobl yn ddiogel yn y gymuned; i osgoi cludo cleifion mewn ambiwlansys a'u derbyn i ysbytai; ac i gyflawni datrysiadau integredig ar y cyd â gwasanaethau gofal cymdeithasol i wella llif cleifion drwy ysbytai.

- Ym mis Medi 2025, yr amseroedd ymateb canolrifol ar gyfer y galwadau ambiwlans newydd – ‘porffor: ataliad’ a ‘coch: argyfwng’ – oedd 7 munud 15 eiliad ac 8 munud 37 eiliad, yn y drefn honno. Cyflwynwyd y categori ‘porffor’ ym mis Gorffennaf 2025 ond mae’n galonogol gweld bod Gwasanaeth Ambiwylans Cymru yn ymateb yn gyflym i bobl sy’n dioddef ataliad y galon.
- Ar gyfer pobl ag ataliad y galon, y ceisiwyd eu hadfywio, fe wnaeth cylchrediad digymell ddychwelyd (ROSC) yn 23.7% o’r cleifion erbyn iddynt gyrraedd yr ysbyty. Mae hyn 4.3 pwynt canran yn uwch nag ym mis Medi 2024. Mae cyfraddau ROSC uwch yn gallu arwain at fwy o siawns o oroesi yn dilyn ataliad y galon.
- Trwy ymdrechion wedi’u targedu a chydgyssylltiedig, ym mis Medi 2025 gwelwyd y cyfanswm isaf o oriau a gollwyd o ganlyniad i oedi wrth drosglwyddo cleifion ambiwlans ers mis Gorffennaf 2021, a gostyngiad o 40% o’i gymharu â mis Medi 2024. Er bod mwy i’w wneud i sicrhau ein bod yn manteisio i’r eithaf ar argaeledd ambiwlansys, mae’r arwyddion cynnar yn dangos bod ein ffocws wedi’i dargedu ar berfformiad trosglwyddo yn lleihau’r amseroedd aros cymunedol hiraf am ambiwlans yn y categori ambr. Roedd yr amser ymateb cyfartalog i gyrraedd pobl yn y categori ambr ym mis Medi 2025 25 munud yn gyflymach o’i gymharu â mis Medi 2024.
- Mae perfformiad gwell o ran trosglwyddo cleifion ambiwlans yn deillio o strategaethau lleol wedi’u targedu; gwaith y rhaglen *Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys ac Argyfwng*, a’r ffocws ledled Cymru ar leihau oedi wrth ryddhau cleifion o’r ysbyty sy’n cael ei sbarduno gan y Tasglu Trosglwyddo-45 cenedlaethol a arweinir yn glinigol. Mae’r dulliau hyn yn cael eu rhannu ar draws sefydliadau GIG Cymru a’u defnyddio gan y tasglu i gefnogi lledaeniad ac ehangu ymarfer effeithiol i gynnal gwelliant wrth i ni symud i fisoedd heriol y gaeaf.
- Mewn adrannau achosion brys mawr, yr amser cyfartalog o 16 munud a dreuliodd pobl yn aros am frysbenno oedd un o’r ddau amser gorau a gofnodwyd ers mis Chwefror 2021. Mae hwn yn farc ansawdd a diogelwch sy’n cefnogi blaenoriaethu clinigol ac yn darparu cyfleoedd i bobl gael eu cyfeirio at fannau eraill i gael y gofal y mae ei angen arnynt pan fo’n briodol.
- Ym mis Awst 2025, cafodd 4.6% yn llai o bobl eu derbyn i’r ysbyty ar ôl mynd i adran achosion brys o’i gymharu â mis Gorffennaf 2025. Mae hyn yn arwydd bod cynlluniau lleol Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng yn cael effaith ar ein system a bod pobl yn dychwelyd adref i gael gofal a thriniaeth yn ôl yr angen.

Iechyd y Boblogaeth ac Atal Problemau

- Ar gyfer diabetes, nodwyd ein disgwyliadau yn y Datganiad Ansawdd a thrwy Fframwaith Cynllunio’r GIG. Mae monitro’n cael ei wneud drwy gyfarfodydd atebolrwydd ac mae pob bwrdd iechyd yn gwneud cynnydd yn erbyn yr amcan strategol, er bod hynny ar wahanol lefelau. Mae’r darlun yng Nghymru gyfan yn gwella gyda llwybr cynyddol cyffredinol yng nghanran y bobl sy’n cael y prosesau gofal allweddol a argymhellir.

- Mae ein buddsoddiad parhaus mewn brechu a'r ffocws o dan flaenoriaeth strategol iechyd y boblogaeth ac atal problemau yn Fframwaith Cynllunio'r GIG yn dangos ei bwysigrwydd.
- Mae'r byrddau iechyd yn parhau â'u hymdrechion i gynyddu nifer y bobl sy'n cael eu brechu er mwyn cyrraedd targedau'r fframwaith perfformiad ac maent wedi gwneud rhywfaint o gynnydd calonogol. Mae adroddiad data diweddaraf Iechyd Cyhoeddus Cymru ar imiwneiddio plant yn nodi cynnydd bach mewn plant a oedd yn gyfredol o ran imiwneiddio arferol erbyn eu pen-blwydd yn bump oed ac o ran cael y brechlyn HPV erbyn 15 oed.
- Mae rhagor o waith wedi'i dargedu wedi cael ei wneud i gynyddu cyfraddau brechu HPV mewn ysgolion sydd â chyfraddau is o'i gymharu â chyfartaledd Cymru.
- Dechreuodd rhaglenni brechu'r gaeaf ar gyfer Covid-19 a'r fflw o ddifrif ar gyfer pob grŵp cymwys ar 1 Hydref. Mae'r gwaith cynllunio wedi canolbwyntio ar gynyddu cyfraddau brechu a mynediad at frechiadau, yn dilyn gostyngiad yn y cyfraddau brechu yn y blynyddoedd blaenorol, sydd wedi'u gweld ledled y DU ers y pandemig. Tynnwyd sylw at y ffocws ar bontio bylchau tegwch, yn enwedig i bobl hŷn a phobl mewn ardaloedd difreintiedig mewn cynlluniau a chyfeiriadau, gyda chanllawiau'n pwysleisio apwyntiadau hygrych a gwybodaeth glir i'r cyhoedd.
- Rydym yn cydnabod yr angen i wella'r cyfraddau brechu, gan barhau i addasu i'r amgylchedd sy'n newid ym maes brechu drwy weithgarwch dal i fyny wedi'i dargedu ac ymgysylltu â grwpiau cymwys i wella mynediad cyfartal a chynnig cymorth wedi'i deilwra i annog grwpiau sydd heb eu gwasanaethu'n ddigonol i fanteisio ar frechiadau.

Meithrin Gallu Cymunedau

- Datblygu System Gofal Cymunedol Integredig (ICCS) i Gymru yw ein menter i gryfhau gwasanaethau iechyd cymunedol a gofal cymdeithasol i fynd i'r afael yn well ag anghenion y nifer cynyddol o bobl yn ein poblogaeth sy'n byw gydag eiddilwch. Mae'n rhan o'n strategaeth ehangach i integreiddio gwasanaethau ar draws iechyd a gofal cymdeithasol sydd wedi'u targedu at y grŵp poblogaeth lle mae lefel y galw am wasanaethau yn cynyddu ar y gyfradd gyflymaf.
- Mae'r gwaith hwn yn ymateb i gyflwr y system iechyd a gofal bresennol, sy'n canfod bod sefydliadau yn cael trafferth i ddarparu ymyriadau iechyd a gofal amserol yn y gymuned ac yn yr ysbyty. Yn bwysicach byth, mae'n sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i'r grŵp poblogaeth hwn.
- Cyhoeddwyd y *Datganiad Ansawdd Integredig ar gyfer Pobl Hŷn sy'n Byw gydag Eiddilwch* ym mis Ionawr 2024 ac mae'n nodi sut olwg sydd ar system ofal ragorol sy'n seiliedig ar leoedd ac sy'n deall eiddilwch.

- Er mwyn cyflymu'r gwaith hwn, darparwyd £8.24m yn 2023-24, £11.95m yn 2024-25 a £11.95m yn 2025-26 i ganolbwyntio ar dair blaenoriaeth allweddol:
 - Nodi'r poblogaethau mewn perygl a hwyluso cynllunio gofal yn y dyfodol a monitro a rheoli gofal y boblogaeth honno mewn ffordd ragweithiol.
 - Cynyddu capasiti gofal cymunedol i allu ymateb gyda darpariaeth 'camu ymlaen' mewn argyfwng a elwir yn 'Ofal Cymunedol Uwch' (wardiau rhithwir)
 - Cynyddu capasiti nyrsio ardal a chapasiti nyrsio gofal lliniarol arbenigol, yn enwedig ar benwythnosau.
- Cynigir cadw'r gyllideb hon yn **£11.95m** yn 2026-27.
- Ni ddylid ystyried hyn ar wahân i gyllid arall sydd hefyd wedi'i ddyrannu mewn perthynas â darparu 'gofal yn agosach at y cartref' – y nodir rhywfaint ohono ar dudalennau 4-5. Bydd gweithredu ICCS i adeiladu capasiti cymunedol yn elwa o gynllunio a chomisiynu ar y cyd ar draws yr holl bartneriaid iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector ac alinio'r holl fuddsoddiad yn y gofod hwn i'w gyflawni.
- Byddwn yn parhau i fwrw ymlaen â'n gwaith i ddatblygu ICCS i Gymru sy'n meithrin capasiti yn ein cymunedau i helpu pobl i gynnal eu hiechyd a'u llesiant eu hunain, i'w hatal rhag cael eu derbyn yn ddiangen i'r ysbyty ac i helpu pobl sydd wedi gorfod cael eu derbyn i'r ysbyty i ddychwelyd adref yn gyflym i wella. Mae'n bwysig bod pobl yn gallu cael mynediad i'r ysbyty pan fydd angen hynny yn feddygol, ond pan nad oes angen gofal meddygol arnynt mwyach, mae adferiad yn cael ei gefnogi orau gartref neu yn y gymuned.
- Byddwn yn cadw ffocws allweddol y gaeaf hwn ar sut y gallwn greu capasiti ychwanegol yn y gymuned ar draws ein system iechyd a gofal cymdeithasol i helpu pobl i gadw'n iach neu wella gartref, gan ddiogelu ein gwelyau ysbyty i'r rhai y mae arnynt eu hangen fwyaf.
- Ar gyfer safonau mynediad mewn gwasanaethau meddygol cyffredinol (GMS), er mwyn sicrhau cysondeb mewn mynediad i gleifion, gorfodwyd Safonau Mynediad cyn-gymhwyso drwy'r contract GMS craidd o 1 Ebrill 2023, sy'n rhan annatod o Wasanaethau Unedig.
- Mae'n ofynnol i bob practis gymryd rhan a chyflawni'r safonau hyn. Maent wedi helpu i wella tryloywder ac atebolrwydd ar draws y system, gyda disgwyl i bractisau ddarparu tystiolaeth gyson o gydymffurfiaeth drwy gydol y flwyddyn.
- Gan adeiladu ar y cynnydd hwn, mae gofynion ymarfer diwygiedig ar gyfer 2025-26, yn atgyfnerthu'r amcanion hyn ymhellach gyda chyfnodau adrodd amlach a rhannu data gan bractisau i gefnogi gwell dealltwriaeth o'r galw a'r capasiti.

Mynediad at Wasanaethau Iechyd Meddwl

- Ledled Cymru, mae'r targedau perfformiad iechyd meddwl a nodir yn fframwaith cynllunio'r GIG yn gwneud cynnydd cymysg.
- Ym mis Mehefin 2025, cynhaliwyd 94.4% o asesiadau'r Gwasanaeth Cymorth Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol (LPMHSS) ar gyfer pobl dan 18 oed o fewn 28 diwrnod o atgyfeiriad. Mae'r targed o 80% wedi'i gyflawni ar gyfer y 14 mis diwethaf.
- Yn ystod yr un cyfnod, dechreuodd 67.6% o'r ymyriadau therapiwtig o fewn 28 diwrnod i asesiad LPMHSS. Er bod hyn yn is na'r targed o 80%, mae 10% yn uwch na'r un mis y llynedd.
- Ym mis Mehefin 2025, cynhaliwyd 81.5% o asesiadau LPMHSS ar gyfer pobl dros 18 oed o fewn 28 diwrnod o atgyfeiriad. Mae'r ffigur hwn wedi amrywio dros y flwyddyn ddiwethaf; mae'r targed o 80% wedi'i gyflawni ddwywaith yn ystod y 12 mis diwethaf (Chwefror a Mehefin 2025). Yn ystod yr un cyfnod, dechreuwyd 87.7% o ymyriadau therapiwtig o fewn 28 diwrnod o asesiad LPMHSS.
- Ym mis Mehefin 2025, roedd gan 96.7% o blant o dan 18 oed sy'n derbyn gwasanaethau gofal iechyd meddwl eilaidd gynllun gofal a thriniaeth dilys. Roedd hyn 2.6 pwynt canran yn uwch na'r mis blaenorol a 6.7 pwynt canran yn uwch na'r un mis y llynedd. Mae'r targed o 90% wedi cael ei gyflawni am y naw mis diwethaf.
- Ym mis Mehefin 2025, roedd gan 78.4% o blant dros 18 oed sy'n derbyn gwasanaethau gofal iechyd meddwl eilaidd gynllun gofal a thriniaeth dilys. Roedd hyn 0.04 pwynt canran yn is na'r mis blaenorol a 3.2 pwynt canran yn is na'r un mis y llynedd. Nid yw'r targed o 90% wedi'i gyflawni ers i adrodd ar sail oedran ddechrau ym mis Ebrill 2020.

Iechyd Menywod

- Cyhoeddwyd y *Cynllun Iechyd Menywod* ym mis Rhagfyr 2024 ac mae'n nodi sut bydd y GIG yng Nghymru yn gwella gwasanaethau gofal iechyd i fenywod; profiad menywod o ofal iechyd, a chanlyniadau i fenywod, gan sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed.
- Dyrannwyd cyllideb o £3m yn 2025-26 i gyflawni'r camau gweithredu yn y Cynllun Iechyd Menywod gyda ffocws ar sefydlu hwb braenaru ar gyfer iechyd menywod yn ardal pob bwrdd iechyd yng Nghymru erbyn mis Mawrth 2026.
Bydd y cyllid hwn yn parhau yn 2026-27.
- Amcan yr hybiau iechyd menywod yw gwella mynediad cyfartal at wasanaethau, a hynny drwy gydol oes, gwella profiad y claf, a sicrhau bod menywod yn cael gofal cyfannol wedi'i deilwra i'w hanghenion unigol, gan ddod â gofal yn agosach at y cartref.

- Mae'r modelau ar gyfer yr hybiau wrthi'n cael eu cwblhau. Nid ydynt yn gynlluniau 'un ateb i bawb'. Mae nifer o wahanol ddulliau'n cael eu hystyried, wedi'u pennu gan y cyd-destun lleol a'u llywio gan y boblogaeth leol. Fodd bynnag, bydd pob hwb yn cynnwys gwasanaethau ar gyfer y menopos, iechyd mislif, ac atal cenhedlu o leiaf.
- Byddant wedi'u lleoli yn y gymuned a byddant yn gweithio ar y rhyngwyneb rhwng gofal sylfaenol ac eilaidd a/neu'r sector gwirfoddol. Mae disgwyl iddynt ddarparu mwy nag un gwasanaeth neu ddangos cynlluniau i wneud hynny. Dylai fod ganddynt hefyd fwy nag un sefydliad sy'n ymwneud â chynllunio, comisiynu a/neu ddarparu gofal.
- Mae camau gweithredu wedi dechrau hefyd mewn perthynas ag addysg a hyfforddiant ym maes iechyd menywod. Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn datblygu modiwlau e-ddysgu i uwchsgilio'r gweithlu. Lle nad oes modd i AaGIC ddarparu hyfforddiant, mae'r byrddau iechyd yn darparu hyfforddiant arbenigol yn unol â blaenoriaethau a bennir yn lleol.

Diweddariad ar y cynnydd a wnaed o ran cyflawni'r newidiadau ar draws y system a amlinellir yn Atodiad 2 y Fframwaith Cynllunio (Camau Galluogi), gan gynnwys gwelliannau o ran ansawdd data, cynllunio gweithlu cryfach, gwell seilwaith digidol, a datblygu arweinyddiaeth a llywodraethu. Fel rhan o broses graffu cyllideb 2026-27, mae'n bwysig asesu sut mae'r camau galluogi hyn wedi cefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau allweddol yn 2025-26, ac a oes buddsoddiad digonol yn cael ei gynnal i wreiddio ac ehangu'r gwelliannau sylfaenol hyn ym mlwyddyn 2.

Ymateb

- Mae'r byrddau iechyd yn gwneud cynnydd tuag at gyflawni'r camau gweithredu galluogi a nodir yn Fframwaith Cynllunio GIG Cymru 2025–28. Er bod amrywiaeth ar draws y byrddau iechyd, mae swyddogion yn parhau i fonitro ac adolygu cynnydd yn rheolaidd drwy gyfarfodydd Ansawdd, Cynllunio a Chyflawni Integredig (IQPD), gyda chymorth timau Perfformiad a Gwella'r GIG.
- Yn ôl y disgwyl, dechreuodd pob bwrdd iechyd y gylchred o linell sylfaen wahanol, gan adlewyrchu eu heriau a'u cyd-destunau gweithredol unigryw. Mae'r amrywiad hwn yn amlwg yn y gwahanol lefelau o gynnydd a welwyd hyd yn hyn; er hynny y disgwyliad o hyd yw y bydd y byrddau iechyd yn cyflawni'r holl gamau galluogi.
- Pum mis i mewn i'r cyfnod cyflawni ar ôl cyflwyno'r cynllun, mae'r byrddau iechyd wedi gwneud cynnydd mewn sawl maes. Mae'r cyflawniadau cynnar hyn yn dangos momentwm ac ymrwymiad i amcanion strategol y fframwaith, er gwaethaf cymhlethdod a graddfa'r trawsnewid sydd ei angen. Mae llwyddiannau nodedig yn cynnwys:
 - Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi cyfuno gwasanaethau cataract yn Ysbyty Athrofaol Llandochoau ac yn dilyn ailgynllunio llwybr

mae'n yn cyflawni'r nifer angenrheidiol o lawdriniaethau cataract fesul rhestr.

- Drwy weithredu'r fframwaith gwasanaethau asesu clinigol o bell, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg wedi lleihau nifer cyfartalog y cludiadau cartrefi gofal i'r adran achosion brys yn chwarter un 2025-26 o'i gymharu â llinell sylfaen Mawrth 2025.
- Mae pob bwrdd iechyd wedi bwrw ymlaen â rhoi system ddigidol Mamolaeth Cymru ar waith. Mae'n fyw ym myrddau iechyd prifysgol Aneurin Bevan a Chaerdydd a'r Fro ac mae'r byrddau iechyd eraill ar y trywydd iawn i roi'r system ar waith erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Bydd Mamolaeth Cymru yn caniatáu i ddarpar famau olrhain a monitro eu cynnydd a chodi pryderon gyda'u bydwagedd o'u ffonau clyfar. Bydd hefyd yn gwella ansawdd gofal gan fydwragedd trwy sicrhau parhad a mynediad hawdd at gofnodion meddygol yn ystod beichiogrwydd.
- Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi cymryd camau i sicrhau bod o leiaf 90% o gapasiti theatr wedi'i gynllunio yn cael ei ddiogelu rhag pwysau gofal heb ei drefnu.
- Mae pob bwrdd iechyd yn bwrw ymlaen â'i gynlluniau defnyddio ystadau. Er enghraifft, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi cau tŷ Dinbych a Chaerfyrddin gan arwain at arbedion sylweddol bob blwyddyn.
- Mae ffocws ar leihau gwariant ar feddygon locwm ac asiantaethau wedi gweld gostyngiad o flwyddyn i flwyddyn, o £325m yn 2022/23, i wariant a ragwelir yn 2025/26 o £123.5m. Mae pob bwrdd iechyd yn rhagfynegi gostyngiadau gwariant yn y maes hwn yn 2025/26.
- Mae ffocws ar leihau gwariant ar feddygon locwm ac asiantaethau wedi gweld gostyngiad o flwyddyn i flwyddyn, o £325m yn 2022/23, i wariant a ragwelir yn 2025/26 o £123.5m. Mae pob bwrdd iechyd yn rhagfynegi gostyngiadau gwariant yn y maes hwn yn 2025/26.

Rhagor o wybodaeth am waith a wnaed gyda byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau i gasglu eu hawgrymiadau ar feysydd y gellid eu dadflaenoriaethu. Beth oedd canlyniad y trafodaethau hynny, a sut maent wedi dylanwadu ar ddull Llywodraeth Cymru o flaenoriaethu a dyrannu adnoddau yng Nghyllideb ddrafft 2026-27?

Ymateb

- Yn dilyn cyfarfodydd â chadeiryddion a phrif weithredwyr y GIG fel rhan o gylch cynllunio 2025-26, cynhaliwyd trafodaethau am flaenoriaethau a'r defnydd o adnoddau. Mae'r mewnwelediadau a gasglwyd wedi llywio'n uniongyrchol datblygiad blaenoriaethau strategol, disgwyliadau cyflawni a chamau galluogi Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, sydd wedi'u nodi yn Fframwaith Cynllunio GIG Cymru 2025-26.

- Mae fframwaith eleni yn nodi symudiad bwriadol tuag at set o amcanion â ffocws mwy pendant, gan adlewyrchu'r rheidrwydd i gyflawni nifer llai o flaenoriaethau effaith uchel. Mae'r dull hwn yn wahanol i flynyddoedd blaenorol, lle'r aethpwyd ar drywydd nodau mwy eang. Mae'r ffocws manwl yn tanlinellu'r angen am gynnydd mesuradwy mewn meysydd sydd o'r pwysigrwydd strategol mwyaf.
- Fel y nodwyd yn llythyr Ysgrifennydd y Cabinet at gadeiryddion, cafodd y blaenoriaethau sydd wedi'u hymgorffori yn y fframwaith eu codi'n gyson drwy sgysiau ac ymgysylltu y Prif Weinidog â'r cyhoedd a'r staff ers haf 2024. Roedd y Fframwaith Cynllunio yn pwysleisio hefyd fod sawl un o'r camau galluogi yn ymwneud â gweithgarwch y mae'n rhaid ei ddadflaenoriaethu pan fo tystiolaeth o wastraff, niwed neu amrywiad sy'n arwain at fawr ddim neu ddim gwerth nac effeithiolrwydd clinigol o gwbl.
- Er mwyn cefnogi hyn, mae Llywodraeth Cymru a GIG Cymru yn parhau i sbarduno gwelliannau mewn effeithlonrwydd gweithredol a chynaliadwyedd ariannol drwy'r Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd, sy'n cael ei gadeirio gan brif weithredwr GIG Cymru/Cyfarwyddwr Cyffredinol y Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynnyddoedd Cynnar Llywodraeth Cymru, ac sy'n cael ei fynychu gan brif weithredwyr a swyddogion gweithredol o bob rhan o GIG Cymru. Mae'r bwrdd yn nodi meysydd o aneffeithlonrwydd a chyfleoedd ar gyfer mwy o effeithlonrwydd, megis adolygu ymyriadau clinigol cost uchel, heb fawr o werth iddynt.
- Fel rhan o'r camau gweithredu galluogi o fewn y fframwaith, mae'r byrddau iechyd yn adolygu Ymyriadau nas Cyflawnir Fel Arfer (INNUs). Mae'r rhain yn ymyriadau yr ystyrir eu bod o werth clinigol isel. Mae Grŵp Effeithiolrwydd Clinigol Cymru Gyfan yn cefnogi hyn drwy sicrhau bod dull cyson sy'n seiliedig ar dystiolaeth o nodi a rheoli'r gweithdrefnau hyn ar draws y system.

2. Gofal cymdeithasol

1.Y dyraniad arfaethedig ar gyfer gofal cymdeithasol

Cyllid ychwanegol a nodwyd ar gyfer 2026-27, a sut bydd y cyllid hwnnw'n cael ei dargedu;

Ymateb

- Mae'r rhan fwyaf o'r cyllid ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol, gan gynnwys gofal cymdeithasol, yn cael ei ddarparu drwy'r grant setliad refeniw llywodraeth leol (RSG), o ardrethi annomestig ac o refeniw a godir yn uniongyrchol gan yr awdurdodau lleol drwy'r dreth gyngor, ffioedd a thaliadau ac incwm arall. Awdurdodau lleol unigol sy'n pennu rheolaeth a chyfeiriad y buddsoddiad hwn.
- Bwriad buddsoddiad uniongyrchol Llywodraeth Cymru mewn gofal cymdeithasol, drwy grantiau a dyraniadau, yw cefnogi gwariant prif ffrwd awdurdodau lleol drwy fuddsoddi mewn agweddau penodol ar ddatblygu a gwella gwasanaethau.
- Yn 2025-26 dyrannwyd mwy na £175.2m o gyllid refeniw i gyflawni ein nodau polisi gofal cymdeithasol ac integreiddio. Enghraifft o ddarpariaeth a ariennir yw'r Gronfa Diwygio Gofal Cymdeithasol. Cyflwynwyd hyn ym mis Ebrill 2022 i gefnogi gweithgarwch i hybu'r gwaith o ddiwygio a gwella gofal cymdeithasol, ac mae'n ategu'r cyllid a ddarperir yn y setliad llywodraeth leol.
- Defnyddir y Gronfa Diwygio Gofal Cymdeithasol i gefnogi'r gwaith o ddiwygio gofal cymdeithasol, i wella'r ddarpariaeth ac i wella cynaliadwyedd gwasanaethau ar draws y sector gofal cymdeithasol. Mae'r gronfa hon hefyd yn cefnogi cyflawni cam cyntaf gweithredu *Tuag at Wasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol i Gymru*, rhan o'n huchelgais tymor hwy ar gyfer gofal a gwasanaeth sydd am ddim yn y pen draw pryd a lle bynnag y mae ei angen.
- Mae'r cyllid yn cael ei ddefnyddio i helpu i gyflawni ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu i ddiwygio gofal cymdeithasol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac i ddiogelu, ailadeiladu a datblygu ein gwasanaethau ar gyfer pobl agored i niwed ac ar gyfer gofalwyr di-dâl, ac i sefydlu Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol, sy'n cael ei arwain gan y Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth newydd.
- Disgwylir i'r cynllun gweithredu cychwynnol cam un gael ei gwblhau ar ddechrau mis Ebrill 2026 ac, yn unol â chytundeb y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol, mae cam dau wedi'i drefnu ar gyfer 2026-28. Bydd hyn yn defnyddio'r 26 o argymhellion a wnaed gan y grŵp arbenigol yn ei adroddiad. Lluniwyd y cynllun gweithredu cychwynnol hwn o weithgareddau ac ymchwil y gellid eu gwneud o fewn yr amlen ariannol bresennol. Rhagwelir y bydd

angen ariannu cam dau o leiaf i'r un lefel ag eleni.

- Mae'r dyraniadau cyllideb arfaethedig i gefnogi'r gwaith o gyflawni polisi gofal cymdeithasol yn cael eu cynnal yn 2026-27 ar lefelau 2025-26, gyda'r un ffocws yn cael ei gynnal ag yn 2025-26.

Sut bydd y dyraniadau yn helpu i sicrhau hyfywedd a sefydlogrwydd parhaus gwasanaethau gofal cymdeithasol, gan gynnwys gofal preswyl a gofal cartref;

Ymateb

- Fel y nodwyd uchod, mae'r mwyafrif o gyllid gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdodau lleol yn cael ei ddarparu drwy'r grant setliad refeniw llywodraeth leol heb ei neilltuo, ardrethi annomestig a refeniw a godir yn uniongyrchol gan yr awdurdodau lleol, megis y dreth gyngor, ffioedd, taliadau ac incwm arall. Awdurdodau lleol unigol sy'n pennu rheolaeth a chyfeiriad y buddsoddiad hwn (gan gynnwys mewn perthynas â sefydlogi a chefnogi gofal cartref a phreswyl) ar sail anghenion ac amgylchiadau lleol.
- Bwriad buddsoddiad uniongyrchol Llywodraeth Cymru mewn gofal cymdeithasol yw cefnogi gwariant prif ffrwd awdurdodau lleol drwy fuddsoddiad sy'n ymwneud ag agweddau penodol ar ddatblygu a gwella gwasanaethau.
- Un enghraifft o'r pwynt diwethaf fyddai'r Gronfa Diwygio Gofal Cymdeithasol, a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2022, i gefnogi gweithgarwch i hybu'r gwaith o ddiwygio a gwella gofal cymdeithasol, er mwyn ategu'r cyllid a ddarperir yn y setliad Llywodraeth Leol.
- Defnyddir y Gronfa Diwygio Gofal Cymdeithasol i gefnogi'r gwaith o ddiwygio gofal cymdeithasol, i wella'r ddarpariaeth ac i wella cynaliadwyedd gwasanaethau ar draws y sector gofal cymdeithasol. Mae'r cyllid yn cael ei ddefnyddio i helpu i gyflawni ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu i ddiwygio gofal cymdeithasol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac i ddiogelu, ailadeiladu a datblygu ein gwasanaethau ar gyfer pobl agored i niwed ac ar gyfer gofalwyr di-dâl, ac i sefydlu Swyddfa Genedlaethol ar gyfer Gofal Cymdeithasol sy'n arwain ar y weledigaeth tymor hirach o wasanaeth gofal a chymorth cenedlaethol i Gymru.
- O ran gofal preswyl plant, dyfarnwyd £68m i'r awdurdodau lleol a rhanbarthau rhwng 2022-23 a 2024-25 drwy'r grantiau dileu elw a diwygio radical. Cefnogodd hyn yr awdurdodau lleol i gyflawni'r ymrwymiad i ddileu elw a helpu i leihau nifer y plant mewn gofal a chefnogi plant sy'n derbyn gofal a'u teuluoedd.
- Mae £75m pellach wedi'i ddyfarnu rhwng 2025-26 a 2027-28 drwy'r grant dileu elw a diwygio radical sydd bellach wedi'i gyfuno. Mae hyn yn cael ei dadelfennu'n gyfartal ar draws pob blwyddyn ariannol gyda rhyw £24.9m wedi'i ddyrannu yn 2026-27. Mae llawer o awdurdodau lleol yn bwriadu

defnyddio rhywfaint o'u dyraniad i gefnogi costau refeniw darpariaeth breswyl fewnol newydd i blant.

- Mae'r ddau gynllun ar gyfer gofalwyr di-dâl a ddarperir drwy'r Gronfa Diwygio Gofal Cymdeithasol wedi cael derbyniad da iawn gan ofalwyr a phartneriaid sy'n rhanddeiliaid, ac mae tystiolaeth i ddangos effaith gadarnhaol ar ofalwyr fel grŵp dan anfantais. Mae'r cynlluniau hyn yn darparu cymorth ariannol brys a chyngor ariannol – a chyfleoedd i ofalwyr di-dâl gael seibiant byr o'u rôl gofalu. Mae hyn yn cefnogi gofalwyr di-dâl i barhau â'u rôl gofalu, sy'n cyfrannu at sefydlogrwydd cyffredinol y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Rhagorodd y ddau gynllun ar eu targedau cyflawni ar gyfer y cyfnod 2022-25 yn sylweddol (er bod y galw yn parhau i fod yn fwy na chapasiti'r cynlluniau) ac fe'u hymestynnwyd tan fis Mawrth 2026, ar gost flynyddol gyfunol o £5.25m. Nid oes penderfyniad wedi'i wneud eto ar ddyfodol y ddau gynllun.

Grant Trawsnewid Llwybrau Gofal

- Bydd y buddsoddiad o £30m yn y Grant Trawsnewid Llwybrau Gofal yn 2025-26 yn cael ei gynnal yn 2026-27. Bydd hyn yn cael ei ddyrannu i'r awdurdodau lleol, gan eu galluogi i lywio a buddsoddi mewn gwasanaethau sy'n ymateb i gymhlethdod cynyddol yr angen mewn lleoliadau ysbytai a chymunedol.
- Er mwyn sicrhau effaith wedi'i thargedu, mae'r grant wedi'i strwythuro o amgylch pedwar maes blaenoriaeth allweddol y gofynnwyd i'r awdurdodau lleol fynd i'r afael â hwy yn eu cynigion buddsoddi:
 - Asesu
 - Gofal Cartref ac Ailalluogi
 - Cartrefi Gofal
 - Cymorth i'r Gweithlu
- Mae gan yr awdurdodau lleol gynigion buddsoddi manwl ar gyfer 2025-26 sy'n amlinellu sut y byddant yn defnyddio eu dyraniadau i fynd i'r afael â heriau allweddol a meysydd oedi yn y meysydd hyn. Mae llawer wedi dewis buddsoddi mewn gwella gallu ac effeithlonrwydd o fewn eu timau gofal cymdeithasol, yn enwedig trwy recriwtio, i gryfhau darparu gwasanaethau a chynaliadwydd y gweithlu. Bydd swyddogion yn defnyddio'r cynigion ariannu unigol i lywio adolygiadau ar gynnydd drwy gydol y flwyddyn gyda phob awdurdod lleol. Bydd gofyn i ranbarthau gyflwyno cynlluniau cynigion wedi'u diweddarau ar gyfer unrhyw ddyraniadau ar gyfer 2026-27 cyn y flwyddyn ariannol newydd a fydd yn cael eu defnyddio fel rhan o'r broses graffu ar gyfer cyllid y flwyddyn nesaf. Bydd disgwyl i gynigion cyllido 2026-27 gyfeirio'n helaeth at berfformiad yn 2025-26 yn erbyn meysydd fel oedi wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty.

Pa gymorth y bydd y gyllideb ddrafft yn ei ddarparu i ofalwyr di-dâl, gan gynnwys tystiolaeth o unrhyw gynlluniau cymorth newydd a gwariant penodol ar ofal seibiant a chymorth ariannol i ofalwyr;

Ymateb:

- Mae'r **Gronfa Gymorth i Ofalwyr** (£1.75m yn 2025-26) wedi darparu cymorth i ofalwyr di-dâl ers 2022 i helpu gyda chaledi ariannol drwy ddarparu grantiau i brynu eitemau hanfodol sylfaenol megis bwyd, eitemau i'r cartref ac eitemau electronig. Mae Gofalwyr Cymru yn amcangyfrif bod 26% o ofalwyr yn byw mewn tlodi a 9% yn byw mewn tlodi difrifol. Mae'r gronfa wedi cefnogi mwy na 29,000 o ofalwyr rhwng 2022 a 2025, bron dwbl y targed gwreiddiol o 15,000. Mae tystiolaeth gref o blaid parhau â'r gronfa hon, sydd wedi cael ei darparu'n llwyddiannus gan y Gronfa Diwygio Gofal Cymdeithasol dros y tair blynedd diwethaf. Bwriedir cynnal yr ymrwymiad hwn ar yr un lefel yn 2026-27.
- Mae gofal seibiant (seibiannau i ofalwyr) yn parhau i fod yn angen mawr ym marn gofalwyr, sy'n dweud yn gyson nad yw'r cymorth a roddir gan yr awdurdodau lleol yn ddigonol. **Mae'r Cynllun Seibiant Byr** (£3.5m yn 2025-26) yn cael ei ariannu gan y Gronfa Diwygio Gofal Cymdeithasol ac mae'n darparu mwy na 50,000 o gyfleoedd i ofalwyr di-dâl gael seibiant, gan ragori yn sylweddol ar y targed gwreiddiol o 30,000. Mae 80 y cant o ofalwyr sy'n cael mynediad at y cynllun yn darparu mwy na 50 awr yr wythnos o ofal ac nid yw'r mwyafrif wedi cael unrhyw fath arall o seibiant yn ystod y 12 mis diwethaf, sy'n dangos tystiolaeth ein bod yn targedu'r rhai sydd fwyaf mewn angen.
- Nid oedd y gwasanaethau yn gwybod am bron hanner yr ymgeiswyr ar gyfer y ddau gynllun hyn o'r blaen. Mae hyn yn dangos y gwerth ychwanegol y ddwy gronfa hyn – maent yn gweithredu fel pyrth i ofalwyr lle y gellir eu cyfeirio at ffynonellau eraill o gyngor a chymorth.
- Ar ben hynny, mae paramedrau'r gronfa yn mynnu bod £7.35m o'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn cael ei ddefnyddio i gefnogi gofalwyr di-dâl (5% o'r cyfanswm). O fewn y cyllid hwn, mae £1m wedi'i glustnodi i fyrddau iechyd i gefnogi gofalwyr lle mae'r unigolyn sy'n cael gofal yn cael ei dderbyn i'r ysbyty neu'n cael ei ryddhau. Dylai'r cymorth hwn gyfrannu at yr agenda i leihau oedi wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty.
- Mae £717,500 wedi'i ddyrannu o'r cynllun Grant i'r Trydydd Sector ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i ddarparu gwasanaethau a chymorth i ofalwyr di-dâl ac i gyflawni amcanion strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer gofalwyr di-dâl. Rydym yn ailddrafftio'r strategaeth genedlaethol ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd. Byddwn yn sicrhau y bydd trefniadau cyllid grant diwygiedig ar gyfer 2026-27 yn galluogi cyflawni amcanion strategol newydd a chamau gweithredu a nodwyd drwy ein proses ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd a fydd yn arwain at y strategaeth derfynol fydd yn cael ei chyhoeddi.
- Nid oes unrhyw gynlluniau cymorth newydd eraill wedi'u cynllunio.

Mesurau yn y gyllideb ddrafft a fydd yn gwella cynaliadwyedd y gweithlu gofal cymdeithasol, yn enwedig prinder staff gofal cartref..

Ymateb

- Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fuddsoddi i gefnogi'r sylfeini ar gyfer gweithlu gofal cymdeithasol cynaliadwy a phroffesiynol, gyda chyllid sylweddol o ryw £28m drwy Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae hyn yn cefnogi Gofal Cymdeithasol Cymru i arwain ar recriwtio, cadw a datblygu'r gweithlu, i hybu ac amlygu'r cyfleoedd i ofal cymdeithasol gael ei ystyried fel gyrfa am oes, gydag ystod o gyfleoedd dilyniant.

Cyflog Byw Gwirioneddol i Weithwyr Gofal Cymdeithasol

- Bydd y grant cynnal refeniw llywodraeth leol (RSG) yn parhau i gynnwys cyllid i dalu'r gwahaniaeth rhwng y Cyflog Byw Cenedlaethol a'r Cyflog Byw Gwirioneddol ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol. Mae'r polisi hwn yn ceisio gwella cyflog ein gweithwyr gofal cymdeithasol, fel rhan o'n hymrwymiad ehangach i ddiogelu gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen ac ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r polisi yn berthnasol i weithwyr cofrestredig mewn cartrefi gofal ac ym maes gofal cartref (gwasanaethau oedolion a phlant) a gweithwyr gofal cartref cofrestredig mewn lleoliadau byw â chymorth. Bydd hefyd yn cael ei dderbyn gan bob cynorthwyydd personol sy'n cael ei ariannu drwy daliad uniongyrchol gan yr awdurdod lleol.
- Mae'r Cyflog Byw Gwirioneddol ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol yn cael ei gefnogi ymhellach gan y Fforwm Gwaith Teg mewn Gofal Cymdeithasol i fynd i'r afael â chyflog teg yn y sector sy'n cynnwys yr ymrwymiad i ddatblygu fframwaith cyflog a chynnydd ar gyfer y sector, gyda'r nod o ddarparu cyfleoedd cyflog, dilyniant a datblygiad mwy cyson i ddenu mwy o bobl i weithio mewn gofal cymdeithaso.

Bwrsari Gweithwyr Cymdeithasol

- Darperir cyllid ar gyfer bwrsari gweithwyr cymdeithasol i fyfyrwyr sy'n astudio gradd mewn gwaith cymdeithasol ac mae'n cynnig cymorth ariannol ychwanegol. Mae hyn yn gwneud y radd gwaith cymdeithasol yn gyraeddadwy yn ariannol ac mae'n sicrhau bod gennym gyflenwad cynaliadwy o weithwyr cymdeithasol yn y dyfodol i chwarae rhan hanfodol yn ein cymunedau. Mae'r cynnydd i'r bwrsari o £10m dros dair blynedd a gyhoeddwyd yn 2022 wedi bod ar gael i fyfyrwyr sydd wedi cychwyn ar y cwrs ers 2021-22. Mae'r cymorth ariannol uwch ar gael i fyfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig yng Nghymru, ac rydym yn parhau â'n hymrwymiad i ariannu'r bwrsari gweithwyr cymdeithasol ar y lefelau uwch yn 2026-27.
- Mae Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru gwerth £10.9m yn rhaglen grant hirsefydledig i gefnogi hyfforddiant a datblygu'r gweithlu ar draws gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r grant blyneddol drwy Gofal Cymdeithasol Cymru yn cael cyllid cyfatebol gan yr awdurdodau lleol, yn cael ei ddosbarthu'n rhanbarthol a'i ddefnyddio gan yr awdurdodau lleol i gefnogi gweithgarwch hyfforddi a datblygu'r gweithlu yn eu sefydliadau eu hunain ac

ar gyfer darparwyr yn y sector annibynnol a gwirfoddol. Mae'n ariannu mentrau hyfforddi fel y cynllun 'Tyfu'ch Bwyd eich Hunan' llwyddiannus. Mae cyfranogiad yn y cynllun hwn yn parhau i dyfu o un flwyddyn i'r llall, ac ar hyn o bryd rydym yn ystyried sut y gallwn adeiladu ar y cyfleoedd hyn.

Grant y Gweithlu a Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy (grant gweithlu)

- Rydym yn cydnabod y rôl y mae'r awdurdodau lleol yn ei chwarae wrth ddarparu gwasanaethau cymdeithasol craidd ac felly byddwn yn parhau â'n hymrwymiad i ddarparu £45m drwy Grant y Gweithlu a Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i bob un o'r 22 awdurdod lleol yn 2026–27. Mae'r cyllid rheolaidd hwn i awdurdodau lleol yn cefnogi codiadau cyflog a mesurau eraill i gryfhau'r gwasanaethau a ddarperir ac i ddiwallu'r galw cynyddol.

3. Adeiladu ar argymhellion yr adroddiad blaenorol

3.1 Blaenoriaethau'r gyllideb

Iechyd a gofal cymdeithasol yw'r prif flaenoriaethau o hyd, yn enwedig yr angen i leihau amseroedd aros y GIG, mynd i'r afael â phwysau ar y gweithlu, a moderneiddio gwasanaethau. Fodd bynnag, yr her yw cydbwysu gofynion tymor byr â thrawsnewid tymor hir -yn enwedig yng nghyd-destun pwysau cyflog cynyddol, seilwaith sy'n heneiddio, a disgwyliadau cynyddol y cyhoedd. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod Cyllideb ddrafft 2026-27 yn cydbwysu'r angen am sefydlogrwydd gwasanaethau yn y tymor byr â thrawsnewid iechyd a gofal cymdeithasol yn y tymor hir?

Ymateb:

- Y Gyllideb Ddrafft yw man cychwyn proses cyllideb Llywodraeth Cymru – nid diwedd y broses. Mae Cyllideb Ddrafft 2026-27 wedi'i hadeiladu ar sylfeini cadarn cyllideb y llynedd, a oedd yn cynnwys gwerth £1.6bn o ymrwymadau gwario newydd, gan alluogi gwasanaethau cyhoeddus i ddechrau cynllunio ar gyfer y flwyddyn ariannol 2026-27. Mae'n dyrannu 98.6% o'r cyllid sydd ar gael, gan adael hyblygrwydd ar gyfer buddsoddiad pellach ym mlaenoriaethau Cymru a gwasanaethau cyhoeddus erbyn y Gyllideb Derfynol ym mis Ionawr.
- Ein huchelgais cadarn yw sicrhau Cyllideb Derfynol sy'n defnyddio'r holl adnoddau sydd ar gael ar gyfer 2026-27. Mae'r llywodraeth yn awyddus o hyd i gydweithio â phleidiau eraill y Senedd i gytuno ar gyllideb, gan bwysleisio ein cydgyfrifoldeb i basio cyllideb sydd o fudd i ddinasyddion Cymru.
- Mae'r portffolio Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynnyddoedd Cynnar (HSCEY) wedi cael cynnydd cylchol o £186m yn llinell sylfaen adnoddau cyllidol mewn perthynas â 2025-26. Mae hyn yn adlewyrchu'r dyraniad ychwanegol tuag at effaith y cynnydd mewn Cyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr (NICs) a chyllid cyflogau'r sector cyhoeddus o 2025-26 ymlaen. Mae'r dyraniad ar gyfer NICs yn gadael diffyg cyllid o tua £16m ar gyfer y MEG HSC – Mae hyn yn cyd-fynd â'r dull a gymerwyd ar draws Llywodraeth Cymru ac mae'n deillio o'r ffaith nad yw Cymru wedi cael yr un lefel o gyllid i gydnabod costau uwch NICs cyflogwyr yn y sector cyhoeddus â Lloegr.
- Mae'r dyraniadau cyllidebol newydd a wnaed yn 2025-26, a ddarparodd £30m yn ychwanegol ar gyfer llwybrau gofal mewn gofal cymdeithasol a £30m ar gyfer gofal plant, wedi'u gwneud yn gylchol ac wedi'u hymgorffori yn y llinell sylfaen yn y MEG HSC yn 2026-27.
- Y llinell sylfaen adnoddau cyllidol ddiwygiedig ar gyfer y MEG HSC yw £12.162bn. Mae'r dull a gymerir yn y Gyllideb Ddrafft hon yn golygu y bydd y MEG yn cael cynnydd chwyddiannol o £259m ar gyfer 2026-27, sy'n rhoi cyfanswm cyllideb o £12.422m o adnoddau cyllidol.

- Mae'r dyraniad ychwanegol hwn i'r gyllideb yn darparu ar gyfer cynnydd o 2.2% ar gyfer elfennau tâl y sector cyhoeddus o fewn y MEG a chynnydd o 2% ar adnoddau cyllidol nad ydynt yn dâl. Mae hon yn sefyllfa eithriadol o heriol, ar hyn o bryd, ar gyfer prif dyraniad y GIG a'r MEG ehangach. Caiff y cyllid ychwanegol ei ddal ar gyfer codiad cyflog y GIG ar gyfer 2026-27, yr ymrwymadau cyflog eraill o fewn y MEG ac effaith gylchol ymrwymadau presennol, sy'n gysylltiedig â'r gweithlu i raddau helaeth.
- Yn yr un modd â blynyddoedd blaenorol, rydym wedi gweithio gyda chydweithwyr ym maes Perfformiad a Gwella'r GIG i asesu'r pwysau tebygol y bydd y GIG yn eu hwynebu y flwyddyn nesaf o ran chwyddiant a thwf yn y galw. Ynghyd â'r pwysau hysbys eraill ar draws y MEG ehangach, mae'n glir bod setliad cyllideb ar y lefel hon yn llawer llai na'r pwysau a'r materion amcangyfrifedig yr ydym yn eu rhagfynegi ar gyfer y GIG, a'r MEG ehangach, ar gyfer 2026-27.
- Nid yw dyraniad y Gyllideb Ddrafft yn darparu cyllid ychwanegol i barhau â chynllun gofal arfaethedig 2025/26 ar sail gylchol – yn 2025-26 darparwyd £100m yn ychwanegol. Nid yw'r un o'r opsiynau a ystyriwyd ar gyfer dyrannu'r cyllid ychwanegol ar gyfer 2026-27 yn cynnwys mentrau gofal a gynlluniwyd, ond mae'r £20m y cytunwyd arno ar ddechrau 2025-26 o fewn y MEG yn dal ar gael.
- Ar hyn o bryd, mae'r holl gyllid refeniw ychwanegol ar gyfer y MEG HSC wedi'i dyrannu i brif BEL y GIG.
- Bydd y fframwaith Cynllunio Tymor Canolig Integredig yn cael ei dyroddi i'r GIG, ac, ar y cam hwn, gofynnir i sefydliadau'r GIG gynllunio ar ddim codiad ar gyfer unrhyw faterion y tu allan i chwyddiant âl ar gyfer 2026-27. Bydd hyn yn heriol iawn i GIG Cymru o gofio ei sefyllfa bresennol, y lefelau chwyddiant a ddisgwylir mewn gofal iechyd, costau triniaethau newydd a'r twf cyffredinol yn y galw am wasanaethau.
- Er ein bod yn bwriadu bodloni effaith codiadau cyflog ar gyfer staff a ariennir yn uniongyrchol ar draws y MEG, hyd at 2.2%, nid ydym yn cynllunio ar hyn o bryd ar gyfer unrhyw fuddsoddiad arall ar gyfer unrhyw gyllidebau eraill.
- Fel y nododd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid wrth gyhoeddi cam cyntaf y Gyllideb Ddrafft, dyma ddechrau'r broses gyllideb ac mae'n fwriad gan y llywodraeth sicrhau Cyllideb Derfynol, sy'n defnyddio'r holl adnoddau sydd ar gael ar gyfer 2026-27, a fydd yn cefnogi gwasanaethau cyhoeddus a phawb sy'n dibynnu arnynt. Bydd yn hanfodol bod y MEG HSC yn gallu sicrhau cyllid pellach fel rhan o'r Gyllideb Derfynol i gydnabod y pwysau y mae'r GIG a'r MEG ehangach yn eu hwynebu yn 2026-27.
- Ar gyfer adfer ym maes gofal a gynlluniwyd, yn ystod y tymor hwn o'r Senedd, rydym wedi darparu buddsoddiad blynyddol o £170m ers i'r cynllun adfer gael ei gyhoeddi ym mis Ebrill 2022. Mae maint yr her wedi golygu nad yw cyflymder yr adferiad wedi bodloni'r uchelgeisiau heriol cychwynnol a nodwyd

yn y cynllun. I gydnabod hyn, a blaenoriaeth y Prif Weinidog i wella mynediad amserol at ofal, ym mis Ebrill 2025, sicrhawyd swm ychwanegol, anghylchol o £100m, ar ben y £20m cychwynnol o gyllid a neilltuwyd ar gyfer amseroedd aros yng nghyllideb 2025-26.

- Mae'r cyllid anghylchol hwn sy'n werth £100m yn cefnogi cynllun blwyddyn o hyd:
 - I ddileu amseroedd aros 104 wythnos erbyn diwedd mis Mawrth 2026
 - I leihau 200,000 ar faint y rhestr aros yn gyffredinol erbyn mis Mawrth 2026.
 - I adfer yr uchafswm o wyth wythnos ar gyfer aros am ddiagnosteg.
- Bydd cyflawni'r targedau cyflawni hyn yn helpu i greu sefyllfa fwy cadarn a chynaliadwy ym maes gofal a gynlluniwyd ar gyfer 2026-27.
- Rydym wedi ymrwymo i barhau â'r gronfa trawsnewid gofal a gynlluniwyd a'r rhaglen gofal clinigol a gynlluniwyd, hyd 2026-27, i sicrhau bod y ffocws ar ddylunio a gweithredu clinigol yn parhau i sbarduno'r gwaith o ddarparu gofal a gynlluniwyd. Bydd y gronfa drawsnewid yn parhau i adeiladu ar fodolau gofal sy'n meithrin cynaliadwyedd a chysondeb cenedlaethol o ran dull gweithredu. Cefnogir hyn gan y cynlluniau moderneiddio i drawsnewid y system gofal a gynlluniwyd ac ailosod y model cleifion allanol.
- Dyma'r nodau trawsnewid:
 - Targedu priodoldeb atgyfeiriadau gyda llwybrau clinigol wedi'u hatgyfeirio at ganlyniadau priodol. Mae hyn yn sicrhau bod atgyfeiriadau yn cael eu hasesu fel rhai sy'n briodol yn glinigol yn seiliedig ar lwybrau a ddyluniwyd yn glinigol sy'n cyflawni canlyniadau gwerthfawr. Yn y cynlluniau optimeiddio cenedlaethol, maent yn tynnu sylw at lwybrau clinigol nad oes ganddynt unrhyw werth clinigol ac oni bai eu bod yn bodloni meini prawf clinigol penodol, ni ddylid eu disgwyl a dylid eu hailgyfeirio at y lle priodol.
 - Ailosod yr arfer draddodiadol o apwyntiadau dilynol ar ôl triniaeth gyda chanllawiau clinigol yn seiliedig ar sylw yn ôl symptomau neu apwyntiad ddilynol a gychwynnir gan y claf.
 - Gwelliannau i gynhyrchiant theatrau a thriniaeth i gynyddu capasiti craidd.
 - Sicrhau bod llwybrau clinigol yn ychwanegu gwerth at ganlyniadau cleifion.
 - Ailddylunio i greu system fwy effeithiol ac effeithlon, llwybrau integredig cymunedol i leihau amrywiadau, buddsoddi mewn cymorth digidol lle bo hynny'n briodol.
- Gall datblygu gwasanaethau rhanbarthol arwain at well defnydd o staff a chyfleusterau, sydd yn ei dro yn gallu lleihau amseroedd aros a gwella cynhyrchiant. Mae gwasanaethau rhanbarthol wedi'u rhoi ar waith ar gyfer cataractau eleni ac, ochr yn ochr â sicrhau capasiti ychwanegol yn sector

annibynnol, mae capasiti wedi dyblu yn 2025-26, sydd wedi lleihau amseroedd triniaeth yn fawr ac wedi moderneiddio'r llwybr, gan ddarparu ymagwedd fwy sefydlog a chyson at amseroedd aros ar gyfer cataractau. Mae ailgynllunio'r llwybr i ddarparu triniaeth yn syth wedi lleihau'r galw am apwyntiadau cleifion allanol cyntaf ymhellach.

- Mae'r rhaglen gofal a gynlluniwyd bellach wedi datblygu cynlluniau optimeiddio clinigol ar draws saith arbenigedd allweddol. Mae'r rhain yn darparu'r glasbrint ar gyfer model cyflawni mwy cynaliadwy, gan weithredu'r holl brosiectau trawsnewid sydd wedi'u profi drwy'r rhaglen ar draws y llwybrau clinigol integredig.
- Rydym hefyd wedi lansio rhaglen drawsnewid fawr arall i symud y system gofal iechyd o leoliad ysbyty drwy arfer i fodel cymunedol o'r cychwyn. Mae hyn yn cael ei arwain gan Brif Swyddog Meddygol Cymru ac mae'n cefnogi ein huchelgais hirsefydlog i symud mwy o ofal iechyd a gwasanaethau o ofal eilaidd i ofal sylfaenol a chymunedol. Bydd hyn yn cynnwys symud adnoddau a gwasanaethau; defnyddio timau amlddisgyblaethol; gwella cydgysylltu lleol drwy glystyrau gofal sylfaenol, a moderneiddio contractau meddygon teulu i ganolbwyntio ar ofal yn y gymuned a lleihau'r galw am ysbytai. Mae strategaethau allweddol yn cynnwys cyflwyno technolegau diagnostig newydd i alluogi gofal cynharach mewn lleoliadau sylfaenol, grymuso dinasyddion, ac ailgynllunio gwasanaethau o amgylch anghenion lleol a pharhad perthynol gofal.

Pa fecanweithiau sydd ar waith i sicrhau nad yw penderfyniadau cyllidebol sy'n cael eu gwneud mewn blwyddyn etholiad yn arafu nac yn gwanhau'r cynnydd ar ddiwygiadau allweddol, fel lleihau amseroedd aros neu foderneiddio gofal wedi'i gynllunio?

Ymateb

- Rydym wedi ymrwymo i barhau â'r gronfa trawsnewid gofal a gynlluniwyd a'r rhaglen gofal clinigol wedi'i gynllunio hyd 2026-27, i sicrhau bod y ffocws ar ddylunio a gweithredu clinigol yn parhau i sbarduno'r gwaith o ddarparu gofal a gynlluniwyd. Bydd y gronfa drawsnewid yn parhau i adeiladu ar fodolau gofal sy'n meithrin cynaliadwyedd a chysondeb cenedlaethol o ran dull gweithredu.
- Byddwn yn adeiladu ar set gynyddol o alluogwyr cenedlaethol ac yn ceisio eu datblygu i gefnogi'r ffocws ar drawsnewid. Y nod yw gwella cynhyrchiant ac effeithlonrwydd. Bydd y cyfeiriad cenedlaethol ar gyfleoedd buddsoddi yn cefnogi dull cyson o gyflawni. Bydd y dull hwn yn adlewyrchu cyfeiriad polisi iechyd a chynaliadwyedd darbodus i leihau niwed a gwastraff.
- Byddwn yn parhau i osod targedau sy'n adeiladu ar y gwelliannau a gyflawnwyd yn 2025-26. Bydd y targedau hyn yn cael eu nodi yn y fframwaith perfformiad ar gyfer 2026-27 sy'n cael ei gefnogi gan y canllawiau cynllunio ar gyfer yr un cyfnod.

3.2 Gweithlu'r GIG a Phwysau Cyflog

Sut mae Llywodraeth Cymru yn ystyried dyfarniadau cyflog a thrafodaethau contract y GIG yn y dyfodol, yn enwedig ar gyfer meddygon, deintyddion a fferyllwyr, wrth gynllunio ei chyllideb ar gyfer 2026-27?

Ymateb:

- Fel y nodwyd mewn atebion blaenorol, y llinell sylfaen adnoddau cyllidol ddiwygiedig ar gyfer y MEG HSC yw £12.162bn. Mae'r dull a gymerir yn y Gyllideb Ddrafft hon yn golygu y bydd y MEG yn cael derbyn cynnydd chwyddiannol o £259m ar gyfer 2026-27, gan roi cyfanswm cyllideb o £12.422m o adnoddau cyllidol.
- Mae'r dyraniad ychwanegol hwn i'r gyllideb yn darparu ar gyfer cynnydd o 2.2% ar gyfer elfennau tâl y sector cyhoeddus o fewn y MEG a chynnydd o 2% ar adnoddau cyllidol nad ydynt yn dâl. Mae hon yn sefyllfa eithriadol o heriol, ar hyn o bryd, ar gyfer prif ddyraniad y GIG a'r MEG ehangach. Caiff y cyllid ychwanegol ei ddal ar gyfer codiad cyflog y GIG ar gyfer 2026-27, yr ymrwymadau cyflog eraill o fewn y MEG ac effaith gylchol ymrwymadau presennol, sy'n gysylltiedig â'r gweithlu i raddau helaeth.

Pa gynlluniau wrth gefn sydd ar waith os bydd trafodaethau cyflog yn mynd y tu hwnt i'r dyraniadau presennol, a sut bydd hyn yn effeithio ar gyllid ar gyfer trawsnewid gwasanaethau ac ehangu'r gweithlu?

Ymateb:

- Rydym wedi talu'r ddau gorff adolygu cyflogau annibynnol – sef Corff Adolygu Cyflogau'r GIG a'r Corff Adolygu Meddygon a Deintyddion. Bydd angen ystyried y fforddiadwyedd unwaith y bydd argymhellion y cyrff adolygu cyflogau yn hysbys.
- Ar y cam hwn ym mhroses y gyllideb, nid ydym mewn sefyllfa i gynnal unrhyw swm wrth gefn o fewn y MEG.

3.3 Gwariant ataliol

A all Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd ei phrosiect i ddadansoddi gwariant ataliol ar draws y Grŵp Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Blynnyddoedd Cynnar, gan gynnwys unrhyw ganfyddiadau newydd, amserlenni ar gyfer cwblhau, a sut mae'r gwaith hwn yn cyfrannu at ddyraniadau cyllideb 2026-27 ac adolygiadau gwariant yn y dyfodol?

Ymateb

- Yn dilyn cyhoeddi papur *GIG mewn 10 Mlynedd* yr is-adran Gwyddoniaeth, Ymchwil a Thystiolaeth ac adnewyddu *Cymru Iachach*, gofynnwyd i'r is-adran

ddarparu tystiolaeth o'r hyn sy'n cael ei wario ar atal yng Nghymru ar hyn o bryd.

- Yr uchelgais oedd gwneud gwaith cwmpasu i ganfod a allwn feintio'r gwariant ar atal ac edrych ar lwybrau gofal enghreifftiol (er enghraifft, gofal diabetes, imiwneiddio a sgrinio) i ddarparu tystiolaeth am fanteision atal. Gellid defnyddio'r canfyddiadau wedyn yn llinell sylfaen i fonitro'r gwariant ar atal o fewn Llywodraeth Cymru ac i olrhain y cynnydd o ran nodau *Cymru Iachach*.
- Fe wnaethom adolygu'r ymarfer mapio gwariant ataliol, a gynhaliwyd yn wreiddiol yn 2018, gyda'r bwriad o'i ailadrodd a'i ddiweddarau.
- Dechreuodd y prosiect ddiwedd 2024 gyda'r bwriad o ddadansoddi cyllideb a gwariant 2023-24. Mae sawl trafodaeth wedi'i chynnal ag Iechyd Cyhoeddus Cymru a Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ynglŷn â gweithgarwch tebyg sy'n ystyried gwariant ataliol.
- Daeth yn amlwg nad oes gennym y systemau a'r adnoddau staff i'n galluogi i gynhyrchu'r wybodaeth hon yn hwylus gyda lefel uchel o ddadansoddi cadarn; o ran adolygu ôl-weithredol yn ogystal ag er mwyn helpu i ddefnyddio dull rhagweithiol o gynllunio cyllideb.
- Rydym wedi creu profforma i helpu cyfarwyddiaethau o fewn grŵp HSCEY i nodi lefel y gwariant ataliol o fewn eu cyllidebau. Cydnabuwyd pwysigrwydd y gwaith hwn yn ddiweddar yn y Grŵp Cynghori ar Atal Salwch a gafodd ei gynnull o dan y Prif Swyddog Meddygol ym mis Mai 2025 gyda'r bwriad o drafod y canfyddiadau ym mis Medi 2025.
- Yn anffodus, nid ydym wedi gallu bwrw ymlaen â'r gwaith hwn mor bell ag yr oeddem wedi gobeithio, oherwydd blaenoriaethau eraill sy'n cystadlu, ac mae'r gwaith hwn wedi dod i ben dros dro. Fodd bynnag, mae dadansoddiad allanol y GIG wedi parhau i gael ei ddatblygu. Mae'n debygol y bydd y gwaith gyda phartneriaid y GIG yn cymryd peth amser i nodi gwybodaeth, llif data a strwythurau i helpu i ddatblygu dulliau o gael gwybod beth yw'r gwariant perthnasol cyn dadansoddi gwariant atal.

A oes methodoleg gyson wedi'i chytuno ar gyfer categorïddio gwariant y GIG yn categorïau ataliol ac aciwt, ac a fydd hyn yn cael ei ddefnyddio i adrodd ar wariant atal problemau mewn cyllidebau yn y dyfodol?

Ymateb:

- Roedd y dadansoddiad gwariant ataliol a amlinellir uchod yn argymhelliad uniongyrchol gan dîm cyfarwyddwyr gweithredol Grŵp HSCEY. Mae'r gwaith hwn yn cefnogi'r argymhelliad hwn, drwy ailedrych ar ddadansoddiad Llywodraeth Cymru o gyllideb 2018-19. Mae'r gwaith adolygu'n mynd rhagddo gyda'r nod o gytuno ar gategoreiddio gwariant y GIG yn categorïau ataliol ac aciwt.

- Mae gwaith wedi mynd rhagddo i gytuno ar fethodoleg a dull gweithredu ond – fel y nodir uchod – nid yw'r systemau presennol yn Llywodraeth Cymru ac yn y GIG yn addas i allu cynhyrchu'r wybodaeth hon yn hwylus gyda lefel uchel o ddadansoddi cadarn; o safbwynt adolygu ôl-weithredol yn ogystal ag er mwyn gallu defnyddio dull rhagweithiol o gynllunio cyllideb. Mae'r broses adolygu yn ymarfer sy'n gofyn am lawer o adnoddau ac mae angen ei ystyried yng nghyd-destun materion eraill sy'n flaenoriaeth. Mae'r GIG wedi bod yn gweithredu system gostio newydd eleni sydd wedi ein hatal dros dro rhag defnyddio'r system bresennol i ddadansoddi gwariant y GIG. Er hynny, rydym yn gobeithio y bydd hyblygrwydd o fewn y system newydd i helpu i gael dadansoddiad mwy cadarn o gyllidebau a gwariant y GIG.

3.4 Iechyd Menywod

Diweddariad ar y cynnydd a wnaed o ran datblygu a gweithredu'r fanyleb ar gyfer hybiau iechyd menywod, gan gynnwys sut mae'r model wedi esblygu i fynd i'r afael ag ystod ehangach o faterion iechyd menywod y tu hwnt i ofal atgenhedlol a gynaeolegol.

- Amcan hybiau iechyd menywod, fel y nodwyd yn gynharach yn y papur tystiolaeth hwn, yw gwella mynediad at wasanaethau iechyd menywod, gan ddod â gofal yn agosach at y cartref.
- Erbyn mis Mawrth 2026, rydym yn disgwyl y bydd hwb iechyd menywod yn ardal pob bwrdd iechyd yng Nghymru, a fydd yn helpu i wella canlyniadau, mynediad at wasanaethau gofal iechyd i fenywod, a'r profiad ohonynt. Os byddant yn llwyddiannus, caiff y rhain eu cyflwyno'n ehangach.
- Y nod yw gwella mynediad teg at wasanaethau, gwella profiad cleifion, a sicrhau bod menywod yn cael gofal cyfannol wedi'i deilwra i'w hanghenion unigol. Mae'r hybiau hyn yn hwyluso gofal cydlynol ac yn hyrwyddo mesurau iechyd ataliol, gyda'r nod yn y pen draw o wella canlyniadau iechyd a lleihau anghydraddoldebau i fenywod ar draws gwahanol gamau mewn bywyd.
- Pennwyd tri maes blaenoriaeth ar gyfer yr hybiau yn 2025-26:
 - Iechyd mislif, gan gynnwys dysmenorrhea, gwaedu trwm yn ystod y mislif, endometriosis, adenomyosis, anhwylder dysfforig cyn y mislif a syndrom ofariau polysystig.
 - Atal cenhedlu, gan gynnwys atal cenhedlu gwrthdroadwy hirweithredol, gofal erthyliad ac anffrwythlondeb.
 - Gofal menopos, gan gynnwys gwaedu ar therapi adfer hormonau.
- Mae'r modelau ar gyfer yr hybiau wrthi'n cael eu cwblhau. Byddant wedi'u lleoli yn y gymuned ac yn gweithio ar y rhyngwyneb rhwng gofal sylfaenol ac eilaidd a/neu'r sector gwirfoddol. Mae disgwyl iddynt ddarparu mwy nag un gwasanaeth neu ddangos cynlluniau i wneud hynny. Dylai fod ganddynt hefyd fwy nag un

sefydliad sy'n ymwneud â chynllunio, comisiynu a/neu ddarparu gofal. Nid ydynt yn gynlluniau 'un ateb i bawb'. Mae nifer o wahanol ddulliau'n cael eu hystyried, wedi'u pennu gan y cyd-destun lleol.

- Mae pob bwrdd iechyd wedi penodi arweinydd clinigol ac uwch-swyddog cyfrifol ar gyfer yr hybiau iechyd menywod. Maent yn ymgysylltu â'r Rhwydwaith Iechyd Menywod i ddatblygu eu cynlluniau manwl ar gyfer eu hybiau.
- Mae Addysg a Gofal Iechyd Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn datblygu modiwlau e-ddysgu i uwchsgilio'r gweithlu. Lle nad oes modd i AaGIC ddarparu hyfforddiant, mae'r byrddau iechyd yn darparu hyfforddiant arbenigol yn unol â blaenoriaethau a bennir yn lleol.

Sut bydd cyllideb 2026-27 yn sicrhau cynaliadwyedd ac yn ehangu'r canolfannau hyn y tu hwnt i'r cam braenaru, yn enwedig gan ystyried yr uchelgais i leihau'r bwlch iechyd rhwng y rhywiau a darparu gofal cyfannol ac ataliol;

Ymateb

- Cafodd yr arian ychwanegol ei ddyrannu i iechyd menywod er mwyn cyflawni'r *Cynllun Iechyd Menywod*. Y ffocws yn 2025-26 oedd sefydlu'r hybiau iechyd menywod. Mae'r cyllid a ddyrannwyd i'r byrddau iechyd i sefydlu eu hybiau braenaru yn gofyn am ddatblygu achos busnes ar gyfer ehangu'r hybiau ymhellach. Mae'r Rhwydwaith Iechyd Menywod yn cefnogi'r byrddau iechyd i ddatblygu eu hachosion busnes. Mae disgwyl y bydd y byrddau iechyd yn cynnwys cyflwyno hybiau yn ehangach yn eu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2026-29.
- Unwaith y bydd yr hybiau braenaru wedi'u sefydlu, bydd gwerthusiad cenedlaethol yn cael ei gomisiynu i gasglu'r gwersi a'r dystiolaeth i gefnogi'r achos dros gynnal ac ehangu'r hybiau.
- Bydd AaGIC yn cael y dasg o ddatblygu modiwlau e-ddysgu ychwanegol i uwchsgilio'r gweithlu ymhellach, a bydd Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn parhau i ddatblygu'r wefan iechyd menywod sy'n bodoli ochr yn ochr â'r hybiau fel ffynhonnell wybodaeth i hysbysu a grymuso menywod.
- Bydd dyraniadau yn y gyllideb, gan gynnwys yn 2026-27, yn cael eu defnyddio i gyflawni'r camau blaenoriaeth eraill yn y *Cynllun Iechyd Menywod*.

Pa ganlyniadau neu ddangosyddion mesuradwy sydd wedi cael eu datblygu i asesu effaith y canolfannau ar degwch iechyd menywod a mynediad ledled Cymru?

Ymateb:

- Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu Damcaniaeth Newid ar gyfer y Cynllun Iechyd Menywod. Bydd hyn yn helpu i nodi'r metrigau allweddol i'w monitro yn ystod oes y cynllun.

- Mae'r Rhwydwaith Iechyd Menywod wedi sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i archwilio a datblygu mesurau canlyniadau a adroddir gan gleifion (PROMs) ar gyfer iechyd menywod.
- Bydd gwerthusiad effaith yn cael ei gomisiynu yn 2026-27 ar gyfer yr hybiau braenaru.

3.5 Iechyd meddwl

O ystyried y dull gofalus o ymdrin â chyllideb 2026-27, heb unrhyw ymrwymïadau gwario mawr newydd a ffocws ar sefydlogrwydd cyn etholiad nesaf y Senedd, tybir y bydd y gyllideb iechyd meddwl sydd wedi'i chlustnodi yn parhau i gael ei diogelu. Yn y cyd-destun hwnnw, a all y Gweinidog ddarparu dadansoddiad manwl o sut y mae'r £820+ miliwn a ddyrannwyd ar gyfer iechyd meddwl yn cael ei ddosbarthu ar draws gwasanaethau—fel CAMHS, iechyd meddwl oedolion, a gwasanaethau niwroddatblygiadol? A fydd unrhyw newidiadau i'r dyraniadau gwasanaeth hyn yn 2026-27?

- Gallwn gadarnhau ein bod yn parhau i glustnodi cyllid iechyd meddwl ar gyfer y GIG; ac er nad yw'r ffigur terfynol wedi'i gadarnhau eto ar gyfer 2026-27, bydd yn cynyddu gan fod rhagor o gyllid wedi'i ymgorffori yn y llinell sylfaen o fewn dyraniad y GIG. Rydym yn disgwyl iddo fod yn fwy na **£840m** ac y bydd felly yn ein galluogi i gynnal ein buddsoddiad mewn gwasanaethau iechyd meddwl.
- Nid ydym yn bwriadu gwneud newidiadau sylweddol i ddyraniadau gwasanaethau yn 2026-27, ond rydym yn prif ffrydio cyllid i'r byrddau iechyd mewn perthynas â gwasanaethau fel 111 pwysu 2, sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd yn y cyllidebau rhaglenni yn y MEG a'i ddyrannu yn y flwyddyn. Mae hyn yn gam tuag at wneud y gwaith hwn yn 'fusnes fel arfer'.
- Er bod y dyraniad cyllid iechyd meddwl cyffredinol wedi'i nodi a'i glustnodi ar wahân o fewn prif ddyraniad y GIG, nid ydym yn gosod cyllidebau ar gyfer y gwahanol feysydd o ddarparu gwasanaethau. Y byrddau iechyd sy'n gyfrifol am asesu anghenion eu poblogaeth leol a darparu'r gwasanaethau priodol i ddiwallu'r anghenion hynny.
- Cyhoeddwyd y Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol a'r Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio a'r cynlluniau cyflawni cysylltiedig ym mis Ebrill 2025. Maent yn gosod y cyfeiriad polisi ar gyfer y 10 mlynedd nesaf a byddwn yn ehangu ein metrigau fel rhan o'n cyfnod gweithredu i ddeall canlyniadau a phrofiadau pobl yn well. Fel yr adroddwyd eisoes, mae'r strategaethau wedi'u datblygu yn y cyd-destun ariannol presennol ac maent yn darparu cyfeiriad i'r system er mwyn targedu adnoddau'n well. Nid ydynt yn dibynnu ar gyllid newydd neu gyllid ychwanegol.

Ar ben hynny, pa fecanweithiau atebolrwydd sydd ar waith i sicrhau bod y cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio yn ôl y bwriad, a pha adnoddau neu ddiwygiadau ychwanegol sydd ar y gweill i gefnogi byrddau iechyd sy'n tanberfformio ar hyn o bryd?

- Rydym yn parhau i fuddsoddi £2.2m y flwyddyn yn Perfformiad a Gwella'r GIG ar gyfer y Rhaglen Strategol Iechyd Meddwl sy'n darparu adnodd pwrpasol i GIG Cymru i sbarduno gwelliannau mewn perfformiad, ansawdd a diogelwch.
- Mae ei rhaglen waith yn cyd-fynd â'r *Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddylol*, ac yn benodol â datganiad gweledigaeth pedwar sy'n ein hymrwymo i sicrhau bod gwasanaethau iechyd meddwl di-dor ar gael sy'n canolbwyntio ar y person ac yn cael eu harwain gan anghenion, lle mae pobl yn cael eu tywys i'r cymorth cywir y tro cyntaf a heb oedi. Mae'r cynllun cyflawni yn nodi'n glir bod hyn yn golygu darparu cymorth mynediad agored, ar yr un diwrnod, ledled Cymru. Dyma'r brif flaenoriaeth gyflawni.
- Mae'r Rhaglen Strategol ar gyfer Iechyd Meddwl wedi paratoi canllawiau ar gyfer byrddau iechyd sy'n nodi disgwyliadau clir ar gyfer gweddill y flwyddyn ac yn darparu'r sylfaen ar gyfer newid trawsnewidiol. Rydym wedi dweud yn glir bod gofyn i gyfarwyddwyr gweithredol sy'n gyfrifol am wasanaethau iechyd meddwl arwain y gwaith hwn mewn cydweithrediad agos â'u timau iechyd meddwl.
- Mae gwelliannau iechyd meddwl wedi'u cynnwys yn y llythyrau atebolrwydd i'r byrddau iechyd fel rhan o'u cynlluniau tymor canolig integredig / eu cynlluniau blynyddol. Mae swyddogion yn monitro ac yn herio cynnydd yn rheolaidd drwy Fyrddau Ansawdd a Chyflenwi Integredig a phroses Cyd-dîm Gweithredol y byrddau iechyd unigol. Mae Perfformiad a Gwella'r GIG hefyd yn cyfarfod â'r byrddau iechyd yn fisol i drafod eu perfformiad yn erbyn eu llwybrau perfformiad cynlluniedig.

3.6 Anghydraddoldebau iechyd

Tystiolaeth o ddull trawslywodraethol o fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a phenderfynyddion ehangach iechyd, a bod 'iechyd y boblogaeth' yn ystyriaeth ar draws cyllidebau adrannau'r llywodraeth.

Ymateb:

- Mae dull trawslywodraethol wedi'i ddefnyddio i sicrhau, lle bo angen, fod cyllidebau iechyd a gofal cymdeithasol yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r Rhaglen Lywodraethu a nodir yng nghynlluniau cydraddoldeb cenedlaethol Llywodraeth Cymru.
- Mae gan Lywodraeth Cymru ymrwymiad hirsefydlog i ymgorffori dull "iechyd ym mhob polisi" i fynd i'r afael â phenderfynyddion ehangach iechyd. Mae hyn yn cydnabod bod ffactorau y tu hwnt i wasanaethau gofal iechyd yn dylanwadu ar iechyd person, megis amodau cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol.

- Gosodwyd Rheoliadau Asesu Effaith Iechyd drafft (Cymru) 2025 yn y Senedd ym mis Medi. Os cânt eu cymeradwyo, byddant yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i ystyried effaith eu penderfyniadau strategol ar iechyd meddwl a chorfforol poblogaeth benodedig.
- Mae ein mentrau cymorth teuluoedd a rhianta, fel y rhai a ddarperir drwy'r rhaglenni Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg, yn chwarae rhan sylweddol o ran mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd. Drwy ddarparu gwasanaethau ymyrraeth gynnar wedi'u targedu i deuluoedd sy'n wynebu ystod o heriau cymdeithasol ac economaidd, maent yn helpu i liniaru effaith amgylchiadau andwyol ar iechyd a llesiant plant.
- Gall y cymorth a ddarperir gan awdurdodau lleol drwy Teuluoedd yn Gyntaf amrywio gan ei fod yn seiliedig ar ddadansoddiad o anghenion y boblogaeth. Gall gynnwys mentrau sy'n canolbwyntio ar faeth, sgiliau coginio, a phwysigrwydd gweithgarwch corfforol, gan sicrhau bod teuluoedd yn gallu cael gafael ar yr adnoddau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt i wneud dewisiadau iachach o ran ffordd o fyw. Gall chwarae rhan hanfodol hefyd wrth sefydlu arferion iechyd a llesiant mewn ysgolion, lleoliadau gofal plant, a mannau cymunedol, gan osod y sylfaen ar gyfer ymddygiadau iach gydol oes.
- Mae ei ymagwedd holistaidd, amlasiantaeth at gefnogi teuluoedd yn canolbwyntio ar atal a gwydnwch drwy ddarparu cyngor rhianta wedi'i deilwra, cymorth iechyd meddwl a llesiant, a chymorth gyda heriau fel caledi ariannol a thai. Drwy leihau'r rhwystrau i gymorth, mae'r rhaglen yn helpu i fynd i'r afael â phenderfynyddion ehangach iechyd, yn hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol i blant a phobl ifanc, ac yn helpu i leihau anghydraddoldebau iechyd yn ein cymunedau.

Dechrau'n Deg

- Mae gan ein rhaglen blynnyddoedd cynnar sydd wedi'i thargedu, sef Dechrau'n Deg, ddull integredig ac mae'n cynnwys pedair elfen graidd:
 - Gofal plant o ansawdd uchel wedi'i ariannu i blant dwy oed
 - Cymorth i rieni
 - Cymorth dwys gan ymwelwyr iechyd
 - Cymorth ar gyfer lleferydd, iaith a chyfathrebu.
- Mae hybu negeseuon allweddol ynghylch iechyd y cyhoedd a ffordd iach o fyw yn rhan allweddol o gymorth iechyd ychwanegol Dechrau'n Deg sy'n cael ei gynnig gan ymwelwyr iechyd a'r gweithlu ehangach.
- Mae data cyflawni Dechrau'n Deg ar gyfer 2024-25 yn dangos bod bron i 41,000 o blant wedi elwa o wasanaethau Dechrau'n Deg yn y rhaglen graidd, sef tua 35% o blant dan bedair oed yng Nghymru a 6.3% yn uwch na'r nifer disgwyledig.

Lleferydd, iaith a Chyfathrebu

- Amcangyfrifir bod gan 10% o'r holl blant yn y DU anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu tymor hir a pharhaus. Mae ymchwil yn dangos bod plant sy'n byw mewn tlodi yn dioddef yn anghymesur o oedi dros dro o ran sgiliau iaith cynnar. Mae sgiliau iaith yn ffactor hanfodol yn y cylchoedd sy'n pontio'r cenedlaethau ac maent yn gallu gwneud i dlodi barhau wrth i sgiliau cyfathrebu gwael gael eu trosglwyddo o riant i blentyn. Mae ein buddsoddiad parhaus mewn lleferydd, iaith a chyfathrebu drwy Dechrau'n Deg a'n dull gweithredu cenedlaethol ar gyfer lleferydd, iaith a chyfathrebu drwy'r cynllun cyflawni *Siarad â Fi* yn dangos sut yr ydym yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau a phenderfynyddion iechyd ehangach.

Sut mae effaith dyraniadau cyllid ar wahanol grwpiau/cymunedau wedi cael ei hystyried wrth ddatblygu cynigion y gyllideb.

Ymateb:

- Mae'r gyllideb iechyd a gofal cymdeithasol wedi'i halinio'n sylfaenol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, yn benodol nodau *Cymru Iachach a Chymru fwy cyfartal*. Fel rhan o'n strategaeth i ddarparu gofal iechyd a chymdeithasol yng Nghymru, mae ffocws sylfaenol ar symud gwasanaethau i'r gymuned i gefnogi gwell mynediad a dod â gofal yn agosach at y cartref.

Grant Plant a Chymunedau

- Rydym wedi diogelu cyllid ar gyfer y Grant Plant a Chymunedau (CCG), sy'n cefnogi anghenion y babanod, plant, pobl ifanc a'u teuluoedd mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau trwy ystod o fecanweithiau ymyrraeth gynnar, atal a chymorth. Yn cynnwys y canlynol:
 - **Dechrau'n Deg** sy'n cefnogi'r 1,000 diwrnod cyntaf gan fod y dystiolaeth yn dangos bod y cyfnod hwn yn dylanwadu'n sylweddol ar y canlyniadau i blant a'u teuluoedd. Fel yr amlinellir uchod, mae Mae Dechrau'n Deg yn cynnwys cymorth dwys i ymwelwyr iechyd a chymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd. Mae'r holl blant a theuluoedd sy'n byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg yn gymwys i gael lefel uwch o gymorth gan ymwelwyr iechyd. Y teuluoedd hynny sydd â'r lefel uchaf o angen sy'n cael y gefnogaeth fwyaf dwys. Mae datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu yn sylfaenol i ganlyniadau cadarnhaol i blant. Mae sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu plant yn effeithio ar amrywiaeth eang o ganlyniadau, gan gynnwys ymddygiad, iechyd meddwl a chyflogadwyedd.
 - Mae **Teuluoedd yn Gyntaf** yn helpu i sicrhau canlyniadau gwell i fabanod, plant, pobl ifanc a'u teuluoedd, yn enwedig y rheini sy'n byw mewn tlodi. Mae'r cymorth yn seiliedig ar ddadansoddiad o anghenion y boblogaeth sy'n caniatáu i wasanaethau gael eu teilwra i ddiwallu anghenion penodol cymunedau. Drwy ei ddull cynhwysfawr ac

amlasiantaethol, mae Teuluoedd yn Gyntaf yn helpu i greu teuluoedd iachach a chymunedau cryfach, gan leihau gwahaniaethau iechyd a rhoi hwb i lesiant cyffredinol.

3.7 Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Cyflogwyr

I ba raddau y mae'r pryderon a godwyd yn ystod y craffu ar gyllideb y llynedd ynghylch y cynnydd yng Nghyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr wedi dod i'r amlwg, yn enwedig ar gyfer darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys hosbisau a mudiadau'r trydydd sector.

Ymateb:

- Cyhoeddodd Llywodraeth y DU gynnydd mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol (NIC) cyflogwyr yng Nghyllideb yr Hydref 2024. Dywedodd y byddai'n darparu cyllid i dalu am y cynnydd i gyflogwyr yn y sector cyhoeddus. Fodd bynnag, yn dilyn hynny cafodd Cymru swm canlyniadol Barnett o'r costau ychwanegol i gyflogwyr datganoledig yn y sector cyhoeddus yn Lloegr, yn hytrach na'r costau gwirioneddol.
- Darparodd Llywodraeth y DU £184m o gyllid rheolaidd i Gymru, o'i gymharu â'r gost o £257m. Darparodd Llywodraeth Cymru £36m o'i chronfeydd wrth gefn yn 2025-26 tuag at gostau NICs ychwanegol cyflogwyr. Felly, mae £220m o gyllid sylfaenol ychwanegol wedi cael ei ddarparu i dalu am y cynnydd yng nghyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr. Bydd holl gyflogwyr y sector cyhoeddus yn cael tua 85% o'r amcangyfrif o gynnydd mewn costau Yswiriant Gwladol y maent yn eu hwynebu yn 2025-26.
- Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gyflwyno'r achos i Lywodraeth y DU dros ariannu'n llawn costau NICs cyflogwyr yn y sector cyhoeddus yng Nghymru yn yr un modd ag y mae wedi ei wneud yn Lloegr.
- Y dyraniad i'r MEG Hoedd £98.5m a phennwyd bod yr elfen hon o'r gyllideb yn rheolaidd ar gyfer 2026-27. Amcangyfrifir bod effaith y cynnydd mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol yn y GIG, ac ar draws y Prif Grŵp Gwariant, yn oddeutu £115m, felly mae yna bwysau cyllideb o £16m sy'n effeithio ar Brif Grŵp Gwariant Iechyd a Gofal Cymdeithasol.
- Bu'n ofynnol i'r GIG, cyrff hyd braich a chyllidebau staff mewnol a ariennir gan Lywodraeth Cymru reoli'r diffyg yng nghyllid NIC y cyflogwyr, tua 15% o'u cynnydd gwirioneddol mewn costau.
- Nid yw'r MEG wedi gallu dyrannu unrhyw gyllid ychwanegol penodol ar gyfer effaith NICs cyflogwyr yn achos hosbisau na phartneriaid trydydd sector. Fodd bynnag, rydym wedi dyrannu £3m o arian rheolaidd gefnogi'r sector hosbisau, gan gydnabod yr heriau ariannol y mae'n eu hwynebu mewn nifer o feysydd.

3.8 Y Gweithlu Gofal Cymdeithasol

Cadarnhad o bryd y bydd adroddiad cyntaf y gwerthusiad annibynnol o'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn cael ei gyhoeddi, a'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud gydag awdurdodau lleol i nodi'r rhai sy'n wynebu heriau o ran gweithredu (yn dilyn pryderon a godwyd gan randdeiliaid).

- Mae Llywodraeth Cymru wedi arwain y ffordd o ran cefnogi'r sector gofal cymdeithasol i wella cyflogau, gan ymrwmo i ariannu'r Cyflog Byw Gwirioneddol ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol ers 2022, sydd ddim yn wir ledled y DU.
- Fel y nodwyd yn gynharach yn y papur tystiolaeth hwn, rydym yn darparu cyllid ychwanegol i'r awdurdodau lleol i bontio'r bwlch rhwng y Cyflog Byw Cenedlaethol a'r Cyflog Byw Gwirioneddol drwy'r setliad llywodraeth leol.
- Disgwylir i werthusiad annibynnol gael ei gyhoeddi yn ddiweddarach yr hydref hwn. Mae canfyddiadau cynnar yn awgrymu bod y Cyflog Byw Gwirioneddol wedi cyrraedd y rhan fwyaf o'r sector, fodd bynnag, rydym yn disgwyl argymhellion sy'n tynnu sylw at rai heriau a'r ffaith nad yw'r cyllid wedi'i glustnodi.
- Rydym wedi cael ymatebion gan yr holl awdurdodau lleol mewn perthynas â'u bwriadau ar gyfer gweithredu'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn 2025-26, ac rydym wrthi'n eu dadansoddi. Byddwn yn ystyried y rhain ochr yn ochr â chanfyddiadau ac argymhellion y gwerthusiad annibynnol er mwyn ystyried y camau nesaf ar gyfer y blynyddoedd i ddod.
- Rydym yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod cytundebau cyflog teg mewn gofal cymdeithasol, sydd wedi'u cynnwys yn rhan o Fil Hawliau Cyflogaeth y DU, yn cael eu hestyn i Gymru. Ym mis Gorffennaf, pasiodd y Senedd y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol a oedd yn ymwneud â sefydlu Corff Negodi Gofal Cymdeithasol i Gymru a fyddai'n cytuno ar gytundebau cyflog teg. Rydym eisoes wedi negodi y bydd gwasanaethau plant yn cael eu cynnwys yn y cwmpas yng Nghymru, tra bod Lloegr yn canolbwyntio ar ofal cymdeithasol i oedolion yn unig. Nid yw cyfraith cyflogaeth wedi'i datganoli, ac felly nid oes gennym bwerau gorfodi mewn perthynas â Chyflog Byw Gwirioneddol – byddai cytundebau cyflog teg yn newid hyn, gan alluogi'r corff negodi newydd ym maes gofal cymdeithasol i'w gorfodi.

Eglurhad ynghylch a yw Llywodraeth Cymru (neu Gofal Cymdeithasol Cymru) yn bwriadu cyhoeddi rhagor o ddata sy'n ymwneud â gofal cymdeithasol, gan gynnwys ffigurau cyfredol ar swyddi gwag staff, ac amseroedd aros ar gyfer asesiadau a gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Ymateb

- Mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi defnyddio methodoleg newydd a mwy cywir i gasglu data yn 2024, a oedd yn darparu gwell mynediad at ddata, gwybodaeth fwy cywir am ddarparwyr a rhagor o fanylion o ddatganiadau blynyddol Arolygiaeth Gofal Cymru.
- Mae Gofal Cymdeithasol Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn gweithio i uno eu prosesau casglu data o 2026 ymlaen, felly dim ond un set o ddata y bydd angen i ddarparwyr ei chyflwyno trwy borth AGC.
- Er mwyn annog cyfraddau ymateb uwch ar gyfer casglu data yn 2025, mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn cyhoeddi llythyr ar y cyd - wedi'i gydfodnodi gan Lywodraeth Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru - yn annog darparwyr i lenwi eu ffurflenni. Nod y dull cydweithredol hwn yw atgyfnerthu pwysigrwydd cymryd rhan cyn y bwriad i integreiddio prosesau casglu data o 2026 ymlaen.
- Dros y blynyddoedd diwethaf, mae gwaith wedi cael ei wneud i gynyddu lefel y data gofal cymdeithasol sy'n cael ei gasglu ac mae amrywiaeth o ddata gofal cymdeithasol eisoes yn cael ei gyhoeddi ar wefan Stats Cymru.
- Yn fwy diweddar, mae data pwynt gwirio gofal cymdeithasol wedi cael ei ddatblygu, sef casgliad data misol oddi wrth y 22 awdurdod lleol sy'n cael ei goladu'n genedlaethol i ddarparu darlun ar ddarparu gofal cymdeithasol. Ar hyn o bryd, nid yw'r data hwn yn cael ei gyhoeddi; er hynny, ein huchelgais yw cyhoeddi data gofal cymdeithasol. Mae'r datblygiad hwn yn cyd-fynd â'r weledigaeth tymor hir i greu gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol i Gymru ac mae'n cyd-fynd â sefydlu'r Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth a'i swyddogaeth oruchwyllo genedlaethol ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Rhagor o wybodaeth am sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gwella mynediad at dâl salwch i weithwyr gofal cymdeithasol, yn absenoldeb cyllid ychwanegol.

Ymateb

- Rydym yn cydnabod bod darparu tâl salwch yn flaenoriaeth i weithwyr. Mae Tâl Salwch Statudol yn cael ei reoli gan gyfraith gyflogaeth y DU ac felly mae'n fater sydd heb ei ddatganoli. Felly, cyfyngedig yw gallu Llywodraeth Cymru i ddylanwadu ar newid yn y maes hwn heb gyllid ychwanegol sylweddol.
- Rydym yn croesawu Bil Hawliau Cyflogaeth Llywodraeth y DU, sy'n cynnig diwygiadau pwysig i ehangu cymhwysedd tâl salwch a gwella tegwch i weithwyr. Er bod y newidiadau hyn yn gam i'r cyfeiriad cywir, rydym yn parhau i annog cyflogwyr i fabwysiadu polisïau salwch cryf, cefnogol sy'n adlewyrchu pwysigrwydd llesiant a gwydnwch y gweithlu.
- Yn 2026-27, byddwn yn parhau â'n hymrwymiad i ariannu Canopi, y gwasanaeth cymorth iechyd meddwl a ddarperir am ddim i weithwyr iechyd a

gofal cymdeithasol. Mae'n bwysig bod cymorth priodol ar waith i hyrwyddo iechyd a llesiant ein gweithlu.

- Mae data gan Canopi yn awgrymu bod ei gefnogaeth amserol, o ansawdd uchel wedi golygu bod dros 60% o gleientiaid yn teimlo eu bod wedi gallu parhau i weithio tra oeddent yn cael cymorth, gan helpu i feithrin a chynnal gweithlu cynaliadwy a gwydn.

3.9 Gofal seibiant i ofalwyr di-dâl

Gwrthododd Llywodraeth Cymru ein hargymhelliad ar gyfer mwy o gyllid cynaliadwy ar gyfer gofal seibiant, gan nodi mai cyfrifoldeb statudol awdurdodau lleol yw seibiant. O ystyried y lefelau sylweddol o angen heb ei ddiwallu, beth fydd Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sbarduno gwelliant yn y maes hwn, yn enwedig os bydd y cyllid ar gyfer y Cynllun Seibiant Byr yn dod i ben yn 2026?

Ymateb

- Fel y crybwyllir mewn adran gynharach o'r dystiolaeth hon, rydym yn datblygu Strategaeth Genedlaethol newydd ar gyfer Gofalwyr Di-dâl ac rydym wedi cwblhau proses ymgysylltu gynhwysfawr â rhanddeiliaid. Mae mynediad at seibiant digonol, addas ac amserol, gan gynnwys seibiant dros nos a seibiannau byrrach i ofalwyr di-dâl, wedi'i nodi fel angen parhaus sy'n flaenoriaeth ar gyfer gofalwyr.
- Bydd y strategaeth yn destun ymgynghoriad cyhoeddus cyn diwedd y flwyddyn ac fe gaiff ei chyhoeddi yn 2026. Byddwn yn gosod disgwyliadau newydd ar awdurdodau lleol i ddarparu digon o seibiant fel rhan o'u cyfrifoldebau statudol, a byddwn yn gweithio gydag Arolygiaeth Gofal Cymru i sicrhau ein bod yn cael gwybodaeth am ddarpariaeth fel rhan o'u prosesau arolygu.
- **Mae'r Cynllun Seibiant Byr** (£3.5m yn 2025-26) yn cael ei ariannu gan y Gronfa Diwygio Gofal Cymdeithasol ac mae'n darparu mwy na 50,000 o gyfleoedd i ofalwyr di-dâl gael seibiant, gan ragori yn sylweddol ar y targed gwreiddiol o 30,000. Mae 80 deg y cant o ofalwyr sy'n cael mynediad at y cynllun yn darparu mwy na 50 awr yr wythnos o ofal ac nid yw'r mwyafrif wedi cael unrhyw fath arall o seibiant yn ystod y 12 mis diwethaf, sy'n dangos tystiolaeth ein bod yn targedu'r rhai sydd fwyaf mewn angen.

Bwriedir cynnal yr ymrwymiad hwn ar yr un lefel yn 2026-27.

3.10 Codi tâl am ofal a chynnydd y Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol

Rhagor o wybodaeth am y gwaith sy'n mynd rhagddo i archwilio proses apelio i roi'r hawl i unigolion apelio yn erbyn penderfyniad awdurdod lleol ar godi tâl am ofal (sy'n cael ei grybwyll yn adroddiad blynyddol y Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth).

Ymateb

- Dangosodd ymatebion i'r ymgynghoriad ar gynyddu'r cap ar ofal cartref yng ngwanwyn 2024 fod anghysondebau o ran y polisiâu codi tâl am ofal cymdeithasol ar draws y 22 awdurdod lleol. Gofynnodd y Gweinidogion i swyddogion weithio gyda llywodraeth leol i ddeall sut y mae'r codau codi tâl yn cael eu cymhwyso ac i ystyried proses apelio safonol a dull o weithio drwy rannu gwasanaethau i gynnal asesiadau ariannol.
- Mae'r gwaith ar y gweill i ddeall natur a lefel yr anghysondebau o ran arferion, ac mae ymarfer cysgodi wedi cael ei gynnal gyda'r awdurdodau lleol. Rhagwelir y bydd cyngor manwl am unrhyw newidiadau polisi arfaethedig sydd eu hangen ar gael ddiwedd gwanwyn 2026.

Diweddariad ar y cynnydd a wnaed "i gryfhau ein dealltwriaeth genedlaethol o effeithiau ariannol symud tuag at system, am ddim pryd a lle bynnag y bo'i angen, fel rhan o'r uchelgeisiau ar gyfer Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol" (sy'n cael ei grybwyll yn adroddiad blynyddol y Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth)

- Yn unol ag argymhellion y grŵp arbenigol yn ei adroddiad *Tuag at Wasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol i Gymru* a'r cynllun gweithredu cychwynnol, mae ymchwil yn cael ei gynnal i nodi'r gyllideb awdurdodau lleol a'r gwariant blynyddol ar wasanaethau atal ac ymyrryd yn gynnar a gomisiynwyd dros y 10 mlynedd diwethaf. Bydd hyn hefyd yn ystyried y cyllid y mae ei angen fel rhan o gyllid gofal cymdeithasol ehangach i ddarparu gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar cynaliadwy. Mae cwmni annibynnol yn ymgymryd â'r ymchwil ar ran Llywodraeth Cymru.
- Mae'r Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth wedi comisiynu Gwasanaethau Llyfrgell Llywodraeth Cymru i gynnal adolygiad llenyddiaeth yn edrych ar sut mae llywodraethau eraill, fel Llywodraeth yr Alban, wedi gwreiddio systemau gofal sydd am ddim pryd a lle bynnag y bo'u hangen. Mae'r ymchwil hefyd yn archwilio gwledydd eraill, sydd wedi mynd ar drywydd modelau tebyg neu eu rhoi ar waith. Mae hyn yn cynnwys systemau sy'n ymdrin â gofal preswyl a gofal dibreswyl, naill ai fel pecyn integredig neu fel gwasanaethau ar wahân.
- Mae grŵp cyllid swyddogion trawslywodraethol wedi'i sefydlu i adolygu a gwella modelu ariannol ar gyfer gofal cymdeithasol. Bydd hyn yn datblygu dealltwriaeth gliriach o'r dirwedd cyllido gofal cymdeithasol ac yn nodi'r pwyntiau gorau posibl ar gyfer cyllid wedi'i dargedu i gefnogi cynaliadwyedd hirdymor y sector.
- Bydd y grŵp hefyd yn cynnal dadansoddiad ariannol o'r costau sy'n gysylltiedig â'r fframwaith cyflog a dilyniant arfaethedig sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Bydd yn datblygu modelu ariannol i gefnogi'r dealltwriaeth o ofynion cyllido gofal cymdeithasol presennol a rhagamcanedig ac yn nodi anghenion modelu yn y dyfodol.

- Hyd yma, mae'r ffrydiau cyllido presennol wedi cael eu mapio ac mae'r gwaith presennol yn cynnwys diweddarau'r gwaith modelu a'r rhagamcanion a wnaed yn flaenorol drwy waith y grŵp rhyngweinidogol ar dalu am ofal ac adroddiad LE Wales.

4. Sefyllfa ariannol Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau

Er gwaethaf dyraniadau ychwanegol, mae'r rhan fwyaf o fyrddau iechyd yn dal i fod â diffyg, ac mae'r system yn parhau i ddibynnu ar ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn a chyllid a gedwir yn ganolog. Pa dybiaethau sy'n sail i gyllideb iechyd 2026-27 o ran arbedion effeithlonrwydd a diffygion byrddau iechyd?

Ymateb:

- Fel yn y blynyddoedd blaenorol, rydym wedi gweithio gyda chydweithwyr yn y tîm Cyflawni a Chynllunio Ariannol yn Perfformiad a Gwella GIG Cymru, i ddatblygu gwaith modelu a ffurfio asesiad o'r pwysau chwyddiant a'r thwff tebygol yn y galw y bydd y GIG yn eu hwynebu y flwyddyn nesaf. Mae'r dull ar gyfer 2026-27 yn adeiladu ar y modelu a ddatblygwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf sydd wedi bod yn gadarn ac yn gywir wrth asesu pwysau'r galw a chwyddiant ar lefel macro.
- Mae allbwn yr asesiad hwn, ochr yn ochr â'r pwysau hysbys eraill ar draws y Prif Grŵp Gwariant ehangach, yn arwain at asesiad amlwg bod y gyllideb ddrafft, ar y cam hwn, yn is o lawer na'r pwysau a'r materion amcangyfrifedig sy'n cael eu rhag-weld ar gyfer y GIG, a'r MEG HSC ehangach, ar hyn o bryd, ar gyfer 2026-27.
- Bydd y fframwaith Cynllunio Tymor Canolig Integredig yn cael ei gyhoeddi ar gyfer y GIG, ac, ar hyn o bryd, gofynnir i sefydliadau'r GIG gynllunio ar sail dim cynnydd mewn cyllid ar gyfer unrhyw faterion ar wahân i chwyddiant cyflogau, ar gyfer 2026-27. Bydd hyn yn heriol iawn i GIG Cymru o ystyried y sefyllfa bresennol, y lefelau chwyddiant disgwylidig mewn gofal iechyd, costau triniaethau newydd a'r twf cyffredinol yn y galw am wasanaethau.
- Drwy'r fframwaith cynllunio, rhoddir ystyriaeth i gysoni blaenoriaethau cynllunio a chyflawni â'r dyraniad sy'n cael ei ddarparu, ac ystyriaeth bellach i gefnogi camau galluogi yn y cyd-destun hwnnw.
- Ar hyn o bryd, mae'r holl gyllid refeniw ychwanegol ar gyfer y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gofal Cymdeithasol, £259m, wedi cael ei ddyrannu i brif BEL y GIG. Er ein bod yn bwriadu ymateb i effaith codiadau cyflog ar gyfer staff a ariennir yn uniongyrchol ar draws y Prif Grŵp Gwariant, hyd at 2.2%, rydym hefyd yn cynllunio ar hyn o bryd ar gyfer dim buddsoddiad arall ar gyfer unrhyw gyllidebau eraill.
- Bydd rhagor o waith yn cael ei wneud i brofi'r gwaith modelu systemau, a bydd cyrff y GIG yn datblygu cynlluniau i ymateb i'r fframwaith cynllunio a dyrannu a fydd yn cael ei osod, ar ôl ystyried y cyllid sydd wedi'i ddyrannu ar gyfer chwyddiant cyflogau, y pwysau asesedig ar wasanaethau'r GIG ar gyfer 2026-27 ar hyn o bryd yw tua £500m.
- Bob blwyddyn ariannol mae'r GIG yn cyflwyno rhaglenni arbedion ac effeithlonrwydd perthnasol i gefnogi ei sefyllfa ariannol a chynyddu'r defnydd

cynaliadwy o adnoddau. Mae cyflawni arbedion wedi bod yn cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gyda'r pedair blynedd ariannol rhwng 2022-23 a 2025-26 yn seiliedig ar ragolwg cyfredol eleni yn cyflawni arbedion o tua £1bn yn ystod y flwyddyn, y mae tua £600m ohonynt yn gylchol.

- Ar gyfer 2025-26, y sefyllfa yn y flwyddyn ym mis chwech (Medi 2025) yw diffyg a ragwelir yn y GIG o £191m; sy'n cael ei ategu gan y rhagdybiaeth y cyflawnir £291m o arbedion. Mae'r gofyniad arbedion yn 2025-26 yn ychwanegol at yr arbedion gwerth £296m a gyflawnwyd yn 2024-25. Mae sicrhau arbedion ar y lefel hon ar ben gwneud arbedion blaenorol yn rheolaidd, yn fwy na'r hyn y mae'r GIG wedi'i gyflawni yn hanesyddol, ac yn gyfran fwy na'r sylfaen dystiolaeth hanesyddol o'r hyn y mae systemau gofal iechyd yn gallu ei gyflawn o gael eu hasesu.
- Bydd angen i gyrff y GIG ddarparu lefel sylweddol o arbedion ac effeithlonrwydd unwaith eto ar gyfer 2026-27. Ni fyddai modd cyflawni'r lefel o arbedion sydd eu hangen i sicrhau cydbwysedd ariannol yn seiliedig ar y pwysau chwyddiant a galw a aseswyd, ac ni fyddai modd cyflawni'r setliad cyllideb arfaethedig heb leihau'r gwasanaethau a ddarperir.
- Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid wedi bod yn glir iawn mai'r Gyllideb Ddrafft yw man cychwyn proses gyllideb Llywodraeth Cymru – nid y diwedd. Mae Cyllideb Ddrafft 2026-27 wedi'i hadeiladu ar sylfeini cadarn cyllideb y llynedd, a oedd yn cynnwys gwerth £1.6bn o ymrwymadau gwario newydd, gan alluogi gwasanaethau cyhoeddus i ddechrau cynllunio ar gyfer y flwyddyn ariannol 2026-27. Mae'n dyrannu 98.6% o'r cyllid sydd ar gael, gan adael lle ar gyfer buddsoddiad pellach ym mlaenoriaethau Cymru erbyn y Gyllideb Derfynol ym mis Ionawr.
- Bwriad cadarn Llywodraeth Cymru yw sicrhau Cyllideb Derfynol sy'n defnyddio'r holl adnoddau sydd ar gael ar gyfer 2026-27 ac sy'n cefnogi gwasanaethau cyhoeddus a phawb sy'n dibynnu arnynt.

Beth yw sefyllfa ariannol gyffredinol y byrddau iechyd, gan gynnwys y sefyllfa ariannol a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn ar gyfer y byrddau iechyd yn 2025-26.

Ymateb:

- Y diffyg cyfunol a ragwelir ar refeniw ar gyfer y GIG yw £190.9m ym mis chwech (Medi 2025) fel y dangosir isod, yn ôl sefydliad.

Mis 6 - 2025/26 Sefydliad Gwarged/-Diffyg	Blwyddyn hyd yma			hagolwg a Adroddwyd	
	Mis Blaenorol	Mis Cyfredol	Symudiad	Mis Blaenorol	Mis Cyfredol
	£000oedd	£000oedd	£000oedd	£000oedd	£000oedd
Bae Abertawe	-37,756	-43,038	-5,282	-58,660	-58,660
Aneurin Bevan	-10,225	-11,387	-1,162	-19,900	-19,900
Betsi Cadwaladr	-13,614	-15,056	-1,442	0	0
Caerdydd a'r Fro	-27,809	-31,843	-4,034	-56,233	-56,233
Cwm Taf Morgannwg	-6,311	-4,296	2,015	0	0
Hywel Dda	-13,732	-15,761	-2,029	-27,800	-27,800
Powys	-15,731	-17,795	-2,064	-28,312	-28,312
AaGIC	77	121	44	0	0
Iechyd a Gofal Digidol Cymru	145	141	-4	0	0
Iechyd Cyhoeddus Cymru	33	16	-17	0	0
Felindre	5	5	-0	0	0
WAST	-229	-186	43	0	0
GIG Cymru	-125,147	-139,078	-13,931	-190,905	-190,905

- Cyflwynodd holl sefydliadau'r GIG gynlluniau drafft ar 31 Mawrth 2025. Ar nodyn cadarnhaol, cyflwynodd holl ymddiriedolaethau'r GIG a phob awdurdod iechyd arbennig Gynlluniau Tymor Canolig Integredig a oedd yn gytbwys yn ariannol. Yn ogystal, cyflwynodd Byrddau Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Betsi Cadwaladr a Chwm Taf Morgannwg Gynlluniau Tymor Canolig Integredig a oedd yn gytbwys yn ariannol.
- Cyflwynodd y pedwar bwrdd iechyd arall gynlluniau a fethodd y ddyletswydd statudol ac felly ni chawsant eu hargymell i'w cymeradwyo. Mae cynlluniau blynyddol yn destun craffu ac asesu parhaus i wella perfformiad ariannol.
- Sefyllfa gronnus cyflwyniadau Cynlluniau Tymor Canolig Integredig y byrddau iechyd oedd diffyg rhagweladwy o £187m – mae'r diffyg yn cael ei sbarduno gan bedwar bwrdd iechyd yn unig (Caerdydd a'r Fro, Hywel Dda, Powys, Bae Abertawe). Gostyngodd hyn ym misoedd cynnar y flwyddyn wrth inni barhau i herio sefyllfaoedd ariannol. Roedd sefyllfa'r pedwerydd mis yn ddiffyg rhagamcanol o £173.2m. Ym mis pump, y diffyg a ragwelir oedd £190.9m, heb unrhyw newid yn cael ei adrodd ar gyfer mis chwech.
- Dylid ystyried diffyg cyfredol rhagweladwy y GIG yn erbyn y ffaith bod £86m o gyllid heb ei ddyrannu yn cael ei gadw yn ganolog yn y Prif Grŵp Gwariant i wneud iawn am ddiffygion y GIG, felly mae diffyg net o £114.9m yn ein rhagdybiaeth gynllunio ar gyfer sefyllfa'r GIG. Cafodd y cyllid hwn ei gadw yn y MEG i wrthbwysu'r cyfansymiau rheoli targed a osodwyd yn 2024-25, fel llinell sylfaen i gefnogi dull cynllunio'r GIG ar gyfer 2025-26.

- Mae sefydliadau'r GIG wedi wynebu heriau wrth gyflawni'r cynlluniau a'r camau gweithredu a nodir yn eu IMTPs a'u cynlluniau blynyddol, sydd wedi arwain at weithgarwch sylweddol yn ystod y flwyddyn i gyflawni lefel yr arbedion y mae eu hangen a lliniaru risgiau ariannol.
- Fel ym mis 6, yn erbyn arbedion arfaethedig o £291m, mae sefydliadau'r GIG yn gallu disgrifio hyder yn y ddarpariaeth o £260.7m, ac mae angen cymryd camau pellach i gau'r bwlch gweddilliol. Ar ben hynny, mae sefydliadau'r GIG yn cymryd mesurau lliniaru i wrthbwysu pwysau gweithredol dros weddill y flwyddyn ariannol hon. O'r herwydd, mae risg o hyd i gyflawni'r sefyllfa ragweladwy hon. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru, gyda chymorth y Tîm Cynllunio a Chyflawni Ariannol yn Perfformiad a Gwella'r GIG, yn parhau i ddarparu cymorth a her i sefydliadau'r GIG.

A fydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddibynnu ar ddyraniadau yn ystod y flwyddyn i sefydlogi cyllid y byrddau iechyd, neu a oes model cyllido mwy cynaliadwy yn cael ei ddatblygu?

Ymateb:

- Ar gyfer 2025-26, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi fframwaith dyrannu clir ar gyfer sefydliadau'r GIG yn 2025-26, ochr yn ochr â disgwyliadau clir o ran cyflawni, a disgwyliadau o ran gwella ariannol. Wrth wneud hynny, cafodd £86m ei gadw yn y MEG a oedd yn adlewyrchu'r cyfansymiau rheoli targed a osodwyd yn 2024-25.
- Mae'r camau gweithredu sydd wedi'u nodi, a adlewyrchwyd yn llythyr dyrannu a fframwaith cynllunio 2025/26, i gyd yn rhan o waith Llywodraeth Cymru yn cefnogi ac yn gweithio gyda'r byrddau iechyd i adfer cydbwysedd ariannol. Roedd gan sefydliadau'r GIG ddisgwyliadau clir o ran cyflawni ariannol.
- Bydd y fframwaith Cynllunio Tymor Canolig Integredig yn cael ei gyflwyno i'r GIG, ac, ar hyn o bryd, gofynnir i sefydliadau'r GIG gynllunio ar sail dim cynnydd mewn cyllid ar gyfer unrhyw faterion ar wahân i chwyddiant cyflogau, ar gyfer 2026-27. Bydd hyn yn heriol iawn i GIG Cymru o ystyried ei sefyllfa bresennol, y lefelau chwyddiant disgwyliedig mewn gofal iechyd, costau triniaethau newydd a'r twf cyffredinol yn y galw am wasanaethau. Drwy'r fframwaith cynllunio, rhoddir ystyriaeth i gysoni blaenoriaethau cynllunio a chyflawni â'r dyraniad sy'n cael ei ddarparu, ac ystyriaeth bellach i gefnogi camau galluogi yn y cyd-destun hwnnw.
- Y disgwyliad yw bod pob un o sefydliadau'r GIG yn gwneud cynnydd o ran cynnal eu sefyllfa ariannol gytbwys, neu'n cyflawni gwelliannau gyda llwybr ar gyfer sicrhau sefyllfaoedd ariannol cynaliadwy a chyflawni eu dyletswyddau ariannol. Bydd hyn yn heriol yng nghyd-destun y gyllideb ddrafft; er hynny, rydym yn cydnabod mai'r cam cychwynnol yw hwn.
- Disgwylir i holl sefydliadau'r GIG wneud y penderfyniadau gorau posibl i gydbwysu'r risg ariannol a'r risg o ran gwasanaeth a'r gweithlu o fewn y

paramedrau cyflawni hyn, a chyflawni gwelliannau ariannol ar yr un pryd â chyflawni anghenion eu poblogaeth leol.

- Disgwylir i sefydliadau sicrhau bod effaith penderfyniadau'n cael eu hasesu'n gadarn o ran ansawdd, diogelwch, risg a'r gallu i gyflawni, a bod y cydbwysedd gorau posibl rhwng barn am risg a gwneud penderfyniadau. Byrddau iechyd fydd yn y sefyllfa orau i benderfynu pa gamau yw'r rhai mwyaf priodol i sicrhau gwelliannau ariannol wrth gydbwyso'r holl newidynnau a risgiau eraill.
- Mae gan Lywodraeth Cymru fframwaith cadarn o fesurau cefnogi, monitro ac uwchgyfeirio, ac ymyrryd. Rydym yn defnyddio'r fframweithiau presennol sy'n ymwneud ag ymyriadau ac rydym wedi gosod meini prawf clir ar gyfer isgyfeirio i gefnogi gwelliant sefydliadol fel rhan o'r fframweithiau hynny, gyda chymorth y Tîm Cynllunio a Chyflawni Ariannol yn Perfformiad a Gwella'r GIG.
- Ar ben hynny, mae agenda genedlaethol y Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd yn parhau i gefnogi'r system i nodi a darparu cyfleoedd i gyflawni arbedion a gwelliannau o ran defnyddio adnoddau er mwyn sicrhau canlyniadau gwell. Mae'r dull hwn wedi helpu GIG Cymru i sicrhau mwy o arbedion a gwelliannau nag mewn blynyddoedd ariannol blaenorol.
- Nid yw prif lythyr dyraniadau byrddau iechyd y GIG wedi'i gwblhau eto. Bydd rhagor o fanylion a chopi o'r llythyr, gan gynnwys tablau ariannol, yn cael eu rhoi i'r pwyllgor ar ôl iddynt gael eu cyflwyno i'r GIG.

A fydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi dadansoddiad manwl o sut y defnyddir cronfeydd y GIG a gedwir yn ganolog?

Ymateb:

- Mae tri senario bras lle byddem yn cadw cyllid ar gyfer y GIG yn ganolog sydd naill ai y tu allan i brif ddyraniad y GIG neu y tu allan i'r maes gwariant o'r enw Cyflenwi Gwasanaethau Craidd y GIG yn y tablau cyllideb a gyhoeddwyd.
 1. Er mwyn gwneud iawn am ddiffygion cynllunio hysbys y GIG – er enghraifft, yn 2025-26 fe wnaethom ddechrau'r flwyddyn gydag £86m yn cael ei ddal yn ôl i ategu'r diffyg a gyflwynwyd ym mhroses gynllunio'r Cynllun Tymor Canolig Integredig.
 2. Pan fydd problemau sylweddol gydag amrywioldeb, amseru neu ansicrwydd – er enghraifft, y dull rydym yn ei ddefnyddio gyda chodiad cyflog bob blwyddyn.
 3. Ar gyfer meysydd polisi penodol – er enghraifft, pan fo cyllid newydd yn cael ei ddyrannu a bod angen sefydlu rhaglenni cyn i'r cyllid gael ei symud i'r prif GIG. Enghraifft dda o hyn yw iechyd meddwl a'r cyllid ar gyfer GIG 111 pwyso 2. Mae'r rhain i'w gweld yn fwy clir yn y tablau BEL cyhoeddedig, gweler isod.

- Mae'r rhan fwyaf o gyllid uniongyrchol y GIG ym mhrif lythyr dyrannu'r GIG, ac mae ffynhonnell y gyllideb hon yn BEL 20 – Dyraniad Craidd y GIG. Ar yr adeg hon bob blwyddyn, rydym yn adolygu'r holl lifau arian i'r byrddau iechyd fel mater o drefn gyda'r bwriad o ychwanegu cymaint â phosibl at eu prif ddyraniad, naill ai i'r elfen ddewisol neu i'r cyfanswm sydd wedi'i glustnodi.
- Mae ein tablau BEL yn rhoi rhagor o fanylion am gyllidebau canolog eraill sy'n ariannu'r GIG ar gyfer rhaglenni penodol a chynlluniau eraill. Mae'r rhain yn cael eu cyhoeddi yng nghanam dau y Gyllideb Ddrafft. Mae detholiad sy'n ymwneud â'r llinellau BEL sy'n cefnogi'r GIG wedi'i gynnwys isod. Mae'r mwyafrif helaeth o linellau cyllideb ym mhob BEL yn cefnogi'r GIG yng Nghymru naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol drwy bartner cyflenwi sy'n darparu gwasanaeth cymorth.

**Rydym wedi eithrio gwybodaeth BEL am y gyllideb ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol ac integreiddio, y blynyddoedd cynnar, CAF/CASS, yr Asiantaeth Safonau Bwyd a'r arolygiaethau.*

IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL			
CYLLIDEB ADNODDAU			
Cam Gweithredu	Rhif y BEL	Disgrifiad o'r BEL	Cyllideb Ddrafft 2026-27, Hydref 2025
Cyflenwi Gwasanaethau Craidd y GIG	0020	Dyraniadau Craidd y GIG	10,645,696
	0020	Dyraniadau Craidd y GIG - Heb fod yn arian parod	309,390
	0030	Dyraniadau Eraill Uniongyrchol y GIG	241,157
	0035	Iechyd a Gofal Digidol Cymru	74,259
	0035	Iechyd a Gofal Digidol Cymru - Heb fod yn arian parod	13,645
	0050	Addysg a Gwella Iechyd Cymru	374,544
	0050	Addysg a Gwella Iechyd Cymru - Heb fod yn arian parod	1,076
	0045	Perfformiad a Gwella'r GIG	53,245
	0250	Iechyd Cyhoeddus Cymru	151,565
Cyfanswm Cyflenwi Gwasanaethau Craidd y GIG			11,864,577
Cyflenwi Gwasanaethau'r GIG wedi'u Targedu	0186	Gweithlu (y GIG)	31,837
	0060	Cymru Iachach	70,264
	0682	Cyllidebau Eraill y GIG (Gwariant)	17,014
	0682	Cyllidebau Eraill y GIG - Heb fod yn arian parod	202
Cyfanswm Cyflenwi Gwasanaethau'r GIG wedi'u Targedu			119,317
Cefnogi Addysg a Hyfforddiant Gweithlu'r GIG	0140	Addysg a Hyfforddiant	34,240
	0185	Cyllidebau Canolog Datblygu'r Gweithlu	6,587
Cyfanswm Cefnogi Addysg a Hyfforddiant Gweithlu'r GIG			40,827
Cefnogi Polisiâu a Deddfwriaeth Iechyd Meddwl	0270	Iechyd Meddwl	31,851
Cyfanswm Cefnogi Polisiâu a Deddfwriaeth Iechyd Meddwl			31,851
Cyflawni Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau	1682	Cronfa'r Cynllun Gweithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau	47,489
Cyfanswm Cyflawni'r Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau			47,489
Rhaglenni Iechyd y Cyhoedd	0233	Hybu Iechyd	15,763
	0232	Diogelu Iechyd ac Imiwneiddio wedi'u Targedu	24,792
Cyfanswm Rhaglenni Iechyd y Cyhoedd			40,555
Gwella Iechyd	0231	Gwella Iechyd a Gweithio Iach	5,592
Cyfanswm Gwella Iechyd			5,592
Trefniadau Effeithiol ar gyfer Parodrwydd am Argyfyngau Iechyd	0230	Cynllunio ar gyfer Argyfyngau Iechyd	9,010
Cyfanswm Trefniadau Effeithiol ar gyfer Parodrwydd am Argyfyngau Iechyd			9,010
Datblygu a Gweithredu Ymchwil a Datblygu er Budd Cleifion a'r Cyhoedd	0260	Ymchwil a Datblygu	48,426
Cyfanswm Datblygu a Gweithredu Ymchwil a Datblygu er Budd Cleifion a'r Cyhoedd			48,426

Pa gynlluniau wrth gefn sydd ar waith os na fydd byrddau iechyd yn cyrraedd eu targedau ariannol ar gyfer 2026-27?

Ymateb:

- Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n pennu fframwaith ariannol y GIG ar gyfer 2026-27. Bydd hyn yn dibynnu ar y setliad terfynol ar gyfer y MEG HSC, na fydd yn hysbys tan fis Ionawr 2026 pan gyhoeddir y Gyllideb Derfynol.
- Bydd y fframwaith Cynllunio Tymor Canolig Integredig yn cael ei gyhoeddi ar gyfer y GIG, ac, ar hyn o bryd, gofynnir i sefydliadau'r GIG gynllunio ar sail dim cynnydd ar gyfer unrhyw faterion ar wahân i chwyddiant cyflogau, ar gyfer 2026-27. Bydd hyn yn heriol iawn i GIG Cymru o ystyried ei sefyllfa bresennol, y lefelau chwyddiant disgwylidig mewn gofal iechyd, costau triniaethau newydd a'r twf cyffredinol yn y galw am wasanaethau. Drwy'r fframwaith cynllunio, rhoddir ystyriaeth i gysoni blaenoriaethau cynllunio a chyflawni â'r dyraniad sy'n cael ei ddarparu, ac ystyriaeth bellach i gefnogi camau galluogi yn y cyd-destun hwnnw.
- Mae gan sefydliadau'r GIG ddyletswydd statudol i roi cynlluniau i Lywodraeth Cymru i fodloni'r meini prawf a nodir yn fframwaith y Cynllun Tymor Canolig Integredig ac sy'n cyd-fynd â'u dyraniad ariannol.
- Yr unig gyllid a fydd yn cael ei gadw gan Lywodraeth Cymru drwy'r MEG HSC yw'r £86m sy'n gwrthbwysio diffygion y byrddau iechyd yn 2025-26, cyllid i gefnogi chwyddiant cyflogau, a chyllid polisi penodol at y diben a fwriadwyd. Ni fydd unrhyw gyllid arall yn cael ei gadw gan y MEG, ac nid oes cynlluniau wrth gefn ar waith os bydd byrddau iechyd yn methu â bodloni'r disgwyliadau a osodwyd ar gyfer 2026-27.

5. Buddsoddi Cyfalaf yn Ystad y GIG

5.1 Ffrydiau cyllido

A all Llywodraeth Cymru ddarparu dadansoddiad cyfunol o'r holl ffrydiau cyllid cyfalaf ar gyfer seilwaith y GIG (e.e. Rhaglen Gyfalaf Cymru Gyfan y GIG, Cronfa Ystadau wedi'i Thargeddu, dyraniadau offer a digidol), gan ddangos faint sy'n cael ei ddyrannu i:

- adeiladau newydd;
- ôl-groniad/cynnal a chadw;
- offer a cherbydau;
- seilwaith digidol.

Ymateb

- Y rhagdybiaeth ar hyn o bryd ar gyfer cyllideb 2026-27 yw y bydd cynnydd o 2% yn cael ei ychwanegu at y llinell sylfaen ar gyfer 2025-26. Mae hyn yn darparu ar gyfer cyllideb gros o £626m sy'n cynnwys £60m o gyfalaf IFRS16 gyda'r gweddill ar gael ar gyfer dyraniad cyfalaf cyffredinol o £566m.
- Mae'r gwaith o gynllunio'r gyllideb ar hyn o bryd yn seiliedig ar y tabl lefel uchel canlynol (noder mai manylion dangosol yw'r rhain ac y gallent newid pan gyhoeddir y Gyllideb Derfynol ym mis Ionawr 2026).

Cynllun cyllideb lefel uchel (dangosol) - ac eithrio IFRS 16

Disgrifiad	£m	Sylw
Y Gyllideb	566	
Cyfalaf Dewisol	112	Cynigir bod y gyllideb uwch o £12.281m yn cael ei darparu fel cyfalaf dewisol ychwanegol i sefydliadau'r GIG yn benodol ar gyfer cynnal a chadw sydd wedi ôl-gronni.
Cronfa Ystadau wedi'i Thargeddu	40	Cynlluniau sydd eisoes wedi'u sefydlu (ac y cytunwyd arnynt gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol) drwy'r Gronfa Ystadau wedi'i Thargeddu.
Y Gronfa Buddsoddi mewn Blaenoriaethau Digidol (Trawsnewid)	40	Rhagdybiaeth gynllunio bresennol (na chytunwyd iddi'n ffurfiol) i gefnogi trawsnewid digidol.
Digidol (seilwaith)	20	Mae angen ystyried cefnogi offer TG, adnewyddu caledwedd, gwelliannau seiberddiogelwch y tu allan i drawsnewid – cronfa wedi'i thargeddu.
Cyfarpar Diagnostig	30	Y rhagdybiaeth gynllunio bresennol yw cynyddu'r £15m sydd wedi'i gymeradwyo ar hyn o bryd i £30m er

		mwyn parhau i weithio ar y rhaglen ddiagnostig a sgrinio ledled Cymru
Cerbydau	23	Y Gwasanaeth Ambiwylansys a'r Gwasanaeth Adalw a Chludo Meddygol Brys
Prosiectau cyfalaf cyfredol – Wedi'u cymeradwyo	96	Mae hyn yn cynnwys gwaith adnewyddu sydd ar y gweill yn Ysbyty'r Tywysog Siarl, gwaith Gorfodi Tân, datblygu Meddygaeth Niwclear yn Ysbyty Singleton a'r offer i Ganolfan Ganser newydd Felindre. Nid yw hyn yn cynnwys y gronfa ystadau wedi'i thargedu, y gronfa buddsoddi mewn blaenoriaethau digidol, a chynlluniau diagnostig.
Prosiectau cyfalaf, cymysgedd o brosiectau newydd, adnewyddu, gwaith diogelwch, iechyd meddwl (heb eu cymeradwyo)	114	Cyllid net ar gael i gefnogi cynlluniau.
Cronfa Integreiddio ac Ailgydbwysio Cyfalaf	70	Cyllideb rhaglenni sy'n gysylltiedig â hybiau cymunedol integredig (gan dybio'r gwariant llawn)
Rhaglenni Eraill Cymru Gyfan	10	Parodrwydd am Argyfyngau Iechyd = £3.5m Camddefnyddio Sylweddau = £2.5m Cyfalaf Gofal Cymdeithasol Cymru = £0.020m Rhaglen Cyfathrebu Symudol y Gwasanaethau Brys (ESMCP) = £3.120m Grantiau Fferylliaeth = £0.700m Arolygiaeth Gofal Cymru = £0.020m Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru = £0.010m
Cynlluniau polisi eraill	11	Meysydd Chwarae Cymunedol = £11m Gwastraff = £1m Glanio Hofrenyddion = £2m

		Sgrinio Canser yr Ysgyfaint = £3m
Cyfanswm y Cynllun Dangosol	566	

Y bwriad o hyd yw cyfeirio'r cyllid tuag at y meysydd blaenoriaeth canlynol:

- **Cyllid dewisol** – Rydym yn ceisio cynyddu'r dyraniad dewisol sydd ar gael i sefydliadau'r GIG i £112m, i fodloni blaenoriaethau lleol. Mae'r cynnydd hwn yn cynnwys y dyraniad cyllideb uwch o £12.281m ar gyfer 2026-27, i helpu sefydliadau i ymdrin â materion cynnal a chadw sydd wedi ôl-gronni. Cyfalaf dewisol yw'r hyn a ddyrennir yn uniongyrchol i sefydliadau'r GIG ar gyfer y rhwymedigaethau blaenoriaeth canlynol:
 - Bodloni rhwymedigaethau statudol, megis iechyd a diogelwch a chod tân
 - Cynnal adeiladwaith yr ystad
 - Gosod cyfarpar newydd yn amserol
- **Cyfalaf Strategol (Rhaglen Gyfalaf Cymru Gyfan)** – Byddwn yn ceisio darparu cymorth cyllido ychwanegol drwy raglen gyfalaf Cymru gyfan y dylanwadwyd arni gan y gwaith y mae sefydliadau wedi'i wneud ar y fframwaith blaenoriaethu cyfalaf.

Mae'r cynlluniau allweddol a nodwyd ar gyfer 2026-27 (yn amodol ar gymeradwyaeth) yn cynnwys:

- Cam olaf adnewyddu Ysbyty'r Tywysog Siarl ym Merthyr Tudful.
- Uned iechyd meddwl newydd i oedolion a phobl hŷn yn Ysbyty Glan Clwyd yn lle'r un bresennol.
- Datblygu adeilad newydd yn Ysbyty Brenhinol Alexandra
- Parc Iechyd Llantrisant
- Parhau â'r cymorth ar gyfer Canolfan Ganser newydd Felindre
- Cymorth pellach ar gyfer diogelwch tân a pharhad busnes ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- Camau ychwanegol o waith yn Ysbyty Llandrindod.
- **Cyllid Ystadau wedi'i Dargedu** – Rydym eisoes wedi sefydlu a chytuno ar gynigion ar gyfer y gronfa ystadau wedi'i thargedu ar gyfer materion risg uchel penodol yn ymwneud ag ystadau. Mae hyn yn dod i gyfanswm o £40m o gymorth gan Lywodraeth Cymru yn 2026-27, ynghyd â chyfraniadau cyfatebol dewisol gan y GIG. Mae'r cyllid hwn yn cefnogi amrywiaeth o weithgareddau ar draws:
 - Seilwaith Cyffredinol £18m
 - Diogelwch Tân £5m
 - Iechyd Meddwl £5m
 - Datgarboneiddio £6m
 - Rheoli ac Atal Heintiau £3m
 - Dihalogi £3m

- Mae hon yn rhaglen ddwy flynedd a sefydlwyd yn 2025-26 ac mae'n canolbwyntio ar gefnogi risg seilwaith, diogelwch tân, rheoli ac atal heintiau, a gwasanaethau iechyd meddwl. Mae mwy na 275 o brosiectau yn cael eu cefnogi dros y ddwy flynedd gyda £80m o gyllid Llywodraeth Cymru (£40m y flwyddyn).
- **Buddsoddiad diagnostig** – Rydym yn bwriadu cynyddu'r cyllid ar gyfer cyfarpar diagnostig a chyfarpar newydd o'r £15m sydd eisoes wedi'i gymeradwyo i £30m, gan ganolbwyntio i ddechrau ar gyfnewid cyfarpar sydd wedi dyddio â chyfarpar mwy modern. Yn ogystal, fel rhan o raglen sgrinio canser yr ysgyfaint yng Nghymru, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2025, mae achos busnes yn cael ei ddrafftio ar gyfer unedau symudol i gefnogi sgrinio o 2027 ymlaen.
- **Digidol (trawsnewid)** – Rydym yn bwriadu cynnal y gyllideb £40m ar gyfer cyllid cyfalaf y Gronfa Buddsoddi mewn Blaenoriaethau Digidol i gefnogi ein huchelgeisiau digidol. Mae'r Gronfa yn parhau i chwarae rhan allweddol yn y gwaith o alluogi trawsnewid digidol strategol ar draws GIG Cymru. Mae'n hanfodol ein bod yn parhau i gefnogi rhaglenni cenedlaethol i wella canlyniadau i gleifion, moderneiddio seilwaith a sbarduno arloesedd mewn gwasanaethau.
- **Digidol (seilwaith)** – Ochr yn ochr â thrawsnewid, yn 2026-27 rydym yn bwriadu cyflwyno cronfa ddigidol wedi'i thargedu i gefnogi buddsoddiadau mewn cyfarpar TG, adnewyddu caledwedd a seiberddiogelwch. Mae'r cyllid hwn yn bwysig i gyd-fynd â chadernid gweithredol a darparu gwasanaethau.
- **Cerbydau** – Er mwyn parhau i gefnogi ein fflyd o ambiwlansys, y cynnig yw ystyried cynnal cronfa £20m ar gyfer adnewyddu a gwella. Dylid hefyd ystyried yr angen i gefnogi'r gwasanaeth Adalw Meddygol Brys. Mae hwn yn cael ei sbarduno gan yr awydd i gynnal fflyd ddibynadwy ond hefyd i sicrhau manteision amgylcheddol drwy gerbydau trydan.
- **Y Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwysu (IRCF)** – I gefnogi'r ymrwymiad i greu hybiau cymunedol iechyd a Gofal Cymdeithasol integredig, lansiwyd y Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwysu yn 2022. Oherwydd natur drawsbynciol yr hybiau integredig hyn, daw cyllid o amrywiaeth o gyllidebau ar draws gwahanol bortffolios a allai gynnwys y Gronfa Integreiddio ac Ailgydbwysu Cyfalaf, y Gronfa Trawsnewid Trefi a'r Gronfa Tai â Gofal.
- Mae integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol yn ganolog i'n cynllun tymor hir. Mae'r cyllid cyfalaf o £70m a nodwyd ar gyfer IRCF yn 2026-27 yn gweithio ochr yn ochr â'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol sy'n targedu gwariant refeniw yn unol â'n blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer integreiddio, gan gynnwys gofal yn y gymuned, cael pobl adref o'r ysbyty a chefnogi llesiant emosiynol da.
- Bydd y cyfuniad o'r camau gweithredu hyn yn cefnogi ein huchelgais i drawsnewid a moderneiddio gwasanaethau. Fodd bynnag, mae GIG Cymru yn wynebu heriau ystad sy'n heneiddio ac ôl-groniad sylweddol o ofynion cynnal a chadw, ac mae'n rhaid i'n rhaglen gyfalaf gefnogi ein huchelgeisiau i drawsnewid a moderneiddio gwasanaethau hefyd.

Sut mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau tryloywder ac atebolrwydd wrth olrhain sut mae cyllid cyfalaf yn cael ei wario ar draws y rhaglenni niferus hyn?

Ymateb:

- Mae pob un o sefydliadau'r GIG yn destun olrhain ariannol manwl gydag adroddiadau rheolaidd yn erbyn cyllidebau cymeradwy drwy ffurflenni monitro misol. Yn ogystal, cynhelir cyfarfodydd adolygu cyfalaf deufisol gyda sefydliadau lle mae cyfyngiadau gwariant ac adnoddau cyfalaf yn cael eu trafod yn fanwl. Mae'r wybodaeth hon hefyd yn cael ei hystyried ochr yn ochr ag adroddiad cynnydd y prosiect sy'n cael ei gyflwyno ar y 12^{fed} diwrnod gwaith o bob yn ail fis i'w adolygu. Mae'r gofynion wedi'u nodi yng Nghannllawiau Buddsoddi yn Seilwaith GIG Cymru Canllawiau Buddsoddi yn Seilwaith GIG Cymru o dudalen 16 ymlaen.
- Ochr yn ochr â'r ffurflenni hyn, mae trefniadau monitro ac olrhain ar wahân ar gyfer gwahanol raglenni gwaith, er enghraifft mae'r Gronfa Ystadau wedi'i Thargedu yn cyflwyno diweddariadau i Gydwasanaethau'r GIG – Gwasanaethau Ystadau Arbenigol, ein cynghorwyr technegol.
- O dan raglen y Gronfa Ystadau wedi'i Thargedu, mae adrodd amserol a chywir yn hanfodol er mwyn i'r rhaglen lwyddo. Mae'r gofynion allweddol yn cynnwys cyflwyno tracwyr bob deufis ac adolygiadau bob chwe mis, ynghyd ag ymweliadau safle fesul sefydliad. Mae'r ffrydiau adrodd hyn wedi cael eu datblygu i gefnogi'r gwaith o reoli, monitro ac adrodd yn effeithiol ar gynnydd prosiectau sy'n cael eu hariannu drwy raglen y Gronfa Ystadau wedi'i Thargedu. Mae'r tracwyr ariannol wedi'u cynllunio i hwyluso'r gwaith o gofnodi gwariant yn gywir yn erbyn cyllidebau a ddyrannwyd, monitro dangosyddion perfformiad allweddol a symleiddio prosesau cyflwyno data. Mae unffurfiaeth y mecanweithiau adrodd hyn yn sicrhau cysondeb wrth gasglu data ar draws yr holl sefydliadau GIG yng Nghymru sy'n cymryd rhan.
- Mae gan y Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso drefniadau hefyd, gyda diweddariadau'n ofynnol drwy'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Mae'r tîm ystadau a chyfleusterau cyfalaf yn cwrdd yn rheolaidd â thimau rhaglenni i olrhain gwariant a phroffilio i sicrhau bod goruchwyliaeth glir ar gyfer adrodd canolog yn erbyn yr hyn sy'n waith aml-raglen cymhleth.

5.2 Gwaith cynnal a chadw sydd wedi ôl-gronni

Beth yw'r amcangyfrif presennol o gost ôl-groniad cynnal a chadw ystâd y GIG, a faint o gyllideb gyfalaf 2026-27 sydd wedi'i dyrannu'n benodol i fynd i'r afael â hyn?

Ymateb:

- Mae data diweddaraf y System Perfformiad Ystadau a Chyfleusterau (EFPMS) a gyhoeddwyd ar gyfer 2023-24 yn adrodd bod cyfanswm gwerth y gwaith cynnal a chadw sydd wedi ôl-gronni yn £1.34bn.

- Mae'n anodd dadgyfuno'r gyllideb gyfalaf i nodi dyraniad penodol ar gyfer mynd i'r afael â dim ond y gwaith cynnal a chadw ystadau sydd wedi ôl-gronni. Y rheswm am hyn yw bod nifer o elfennau o raglen gyfalaf Cymru gyfan yn cyfrannu at leihau ôl-groniadau, gan gynnwys cyfalaf dewisol, y gronfa ystadau wedi'i thargedu a chynlluniau adnewyddu neu ailddatblygu unigol. Mae'r buddsoddiadau hyn yn aml yn darparu gwelliannau ehangach i wasanaethau ochr yn ochr â gwelliannau i gyflwr ystadau, gan ei gwneud yn anodd ynysu gwariant sydd i'w briodoli'n llwyr i waith cynnal a chadw sydd wedi ôl-gronni.
- Oherwydd yr amrywiaeth yn ansawdd a chysondeb y data am gyflwr ystadau ar draws sefydliadau'r GIG, mae'n anodd dibynnu'n llwyr ar ddata EFPMS i fesur yn gywir y gwaith cynnal a chadw sydd wedi ôl-gronni. Er bod y data'n rhoi arwydd defnyddiol o dueddiadau, cydnabyddir bod cyflwr yr ystad a'r seilwaith yn debygol o barhau i ddirywio oherwydd oedran. Heb raglen sylweddol o ddatblygu adeiladau newydd neu ailddatblygu safleoedd presennol ar raddfa fawr, mae'n annhebygol y bydd gostyngiad sylweddol neu barhaus yn y rhwymedigaethau cynnal a chadw sydd wedi ôl-gronni.
- Yn 2026-27, mae swyddogion yn ystyried a fyddai'n briodol argymhell cynyddu cyllid cyfalaf dewisol i sefydliadau o £100m i £112m. Fodd bynnag, mae hyn yng nghyd-destun y duedd o gynydd mewn gwaith cynnal a chadw sydd wedi ôl-gronni, felly er y byddai'n cael ei groesawu, ni fyddai'n mynd i'r afael â'r pwysau chwyddiannol yn y maes hwn.

Sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud ynghylch pa risgiau i'r ystad (e.e. diogelwch tân, rheoli heintiau, datgarboneiddio) sy'n cael buddsoddiad wedi'i targedu, a sut mae hyn yn cael ei flaenoriaethu ar draws y byrddau iechyd?

Ymateb:

- Cyfrifoldeb sefydliadau iechyd unigol yw penderfyniadau ynghylch dyrannu cyfalaf dewisol, a disgwylir iddynt asesu a blaenoriaethu buddsoddiadau ar sail proffiliau risg lleol ac anghenion gwasanaeth.
- Mae Cronfa Ystadau wedi'i Thargedu GIG Cymru, sef rhaglen sy'n cael ei hyrwyddo gan Lywodraeth Cymru, yn defnyddio dull strwythuredig sy'n seiliedig ar risg i flaenoriaethu a chymeradwyo buddsoddiad cyfalaf yn erbyn prosiectau.
- Mae'r Gronfa Ystadau wedi'i Thargedu wedi'i chynllunio'n benodol i fynd i'r afael â materion ystadau risg uchel a fyddai'n draddodiadol yn cael eu hariannu drwy gyfalaf dewisol ond na ellir eu diwallu oherwydd cyfyngiadau cyllido. Mae'r gronfa'n targedu chwe chategori allweddol:
 - Risgiau seilwaith (gan gynnwys gwelliannau i adrannau damweiniau ac achosion brys, uwchraddio adeiladau a pheirianwaith yn gyffredinol)

- Diogelwch tân
 - Gwelliannau i'r ystad iechyd meddwl
 - Datgarboneiddio
 - Rheoli ac atal heintiau
 - Dihalogi
- Dyrennir cyfran benodol o'r gronfa i bob un o'r rhain, a rhaid i'r cynigion ddangos yn glir sut y mae'r prosiect arfaethedig yn mynd i'r afael â risgiau diogelwch neu seilwaith hanfodol.
 - Rhaid i bob cais gael ei gymeradwyo gan gyfarwyddwr cyllid a chyfarwyddwr ystadau'r sefydliad GIG, gan sicrhau atebolrwydd ar lefel uwch.
 - Caiff y rhaglen ei rheoli ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Gwasanaethau Ystadau Arbenigol Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Mae ceisiadau'n cael eu hasesu'n ganolog, ac mae cyllid yn cael ei ddyfarnu ar sail difrifoldeb risg, y gallu i gyflawni, ac aliniad â blaenoriaethau cenedlaethol.
 - Mae Canllawiau Buddsoddi yn Seilwaith ehangach GIG Cymru yn atgyfnerthu bod yn rhaid i bob buddsoddiad cyfalaf wneud y canlynol:
 - Cyd-fynd ag anghenion gwasanaeth strategol a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).
 - Dangos defnydd economaidd, effeithlon ac effeithiol o adnoddau.
 - Cael eu cefnogi gan achosion busnes cadarn, gan gynnwys cofrestrau risg a chynlluniau gwireddu buddion

5.3 Seilwaith a Chyfarpar Digidol

Pa gyfran o'r gyllideb gyfalaf sy'n cael ei buddsoddi mewn seilwaith digidol a chyfarpar diagnostig, a sut mae hyn yn cyd-fynd â'r nod o leihau amseroedd aros a gwella cynhyrchiant?

Ymateb:

- Yn y cynlluniau presennol gyda'r cynnydd arfaethedig i gyfarpar diagnostig ac ychwanegu cyllideb seilwaith ddigidol ar wahân i drawsnewid, bydd tua 16% o'r gyllideb yn cael ei thargedu at gyfarpar diagnostig a digidol (ac eithrio unrhyw elfen o ddisgresiwn).
- Ar sail profiad blaenorol, mae sefydliadau'n parhau i wario cyfran sylweddol o'u cyllideb ddewisol ar gyfarpar a digidol. Yn 2024-25, targedwyd mwy na £39m o gyfalaf dewisol at y maes hwn.
- Mae canolfan ranbarthol o bwys yn cael ei datblygu ym Mharc Iechyd Llantrisant, ac mae ei cham cyntaf yn canolbwyntio ar hwb diagnostig cymunedol gyda buddsoddiad cyfalaf sylweddol dros ddwy flynedd ariannol (2026-27 a 2027-28). Y ffocws allweddol yw lleihau amseroedd aros drwy

ddarparu cyfleusterau i ffwrdd o brif safleoedd ysbytai, gan wella profiad cleifion a staff.

- Mae buddsoddi mewn seilwaith digidol a chyfarpar diagnostig yn alluogwr allweddol ar gyfer lleihau amseroedd aros a gwella cynhyrchiant ar draws gwasanaethau iechyd. Drwy gyflymu mynediad at ddiagnosteg, symleiddio llwybrau cleifion, a galluogi ymyriadau cynharach, mae'r technolegau hyn yn helpu i leihau oedi a rhyddhau capasiti clinigol.
- Mae cael yr offer digidol mwyaf diweddar hefyd yn cefnogi monitro, defnydd effeithlon o adnoddau i gefnogi'r galw cynyddol am wasanaethau, cefnogi llesiant a chadw staff. Ar yr un pryd, mae systemau digidol modern yn gwella cynhyrchiant drwy awtomeiddio tasgau arferol, gwella'r broses o rannu data, a chefnogi gwell penderfyniadau. Gyda'i gilydd, mae'r buddsoddiadau hyn yn creu system fwy ymatebol, effeithlon sy'n canolbwyntio ar gleifion.

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi byrddau iechyd i foderneiddio hen systemau TG, ac a oes cynllun trawsnewid digidol tymor hir ar waith?

Ymateb:

- Mae buddsoddi mewn portffolios cyllid digidol megis y Gronfa Buddsoddi mewn Blaenoriaethau Digidol, cyllid gofal rhithwir a chyllid chynhyrchiant yn parhau i fod yn rhan allweddol o'r gwaith o alluogi trawsnewid digidol strategol ar draws GIG Cymru. Mae buddsoddiad refeniw a chyfalaf cyfun o tua £100m yn cefnogi rhaglenni cenedlaethol sy'n gwella canlyniadau cleifion, yn moderneiddio seilwaith ac yn sbarduno arloesedd mewn gwasanaethau.
- Bydd y rhaglen Cysylltu Gofal yn galluogi pobl ledled Cymru i brofi gofal mwy cydgysylltiedig ac ymatebol, gan y bydd gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn cael mynediad amserol at yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod unigolion yn cael cymorth mwy diogel, mwy cydlynol a phersonol, gan leihau dyblygu ac oedi, a gwella canlyniadau i gleifion a defnyddwyr gwasanaethau yn y pen draw.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo cyllid i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) ac i Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn 2025-26 ar gyfer Cysylltu Gofal, yn dilyn cymorth a ddarparwyd i CLILC yn 2024-25.
- Rydym hefyd wedi ariannu prosiectau llwybrau rhanbarthol ym myrddau iechyd prifysgol Betsi Cadwaladr a Chwm Taf Morgannwg ar gyfer systemau digidol iechyd meddwl. Mae hyn yn golygu bod cyfanswm o **£40m** wedi'i fuddsoddi yn y rhanbarth, gan gefnogi'r gwaith o ddarparu gofal digidol integredig ledled Cymru.
- Mae buddsoddiadau wedi cael eu gwneud mewn technolegau, llwyfannau monitro o bell, ac mae systemau fel EPMA (e-bresgripsiynu), System Rheoli Gwybodaeth Labordy, System Gwybodeg Radioleg, Mamolaeth Ddigidol, a

Chofnod Gofal Nyrsio Cymru wedi cael cyllid sydd wedi cael ei ddefnyddio'n rhannol.

- Buddsoddi yn Ap GIG Cymru i roi mynediad digidol i bobl at amrywiaeth o wasanaethau gofal iechyd, gan drawsnewid iechyd a gofal i gleifion drwy fynediad gwell a haws at ofal iechyd a chymorth. Mae bellach wedi'i alluogi ar draws pob meddygfa, gan ddarparu mynediad at apwyntiadau, presgripsiynau a chofnodion iechyd. Bu mwy na hanner miliwn o lawrlwythiadau ac mae ymarferoldeb newydd yn dod ar-lein drwy gydol 2025-26.
- Mae buddsoddiad wedi cael ei wneud mewn gofal wedi'i alluogi gan dechnoleg a gofal ar-lein, i ddefnyddio technoleg i gefnogi unigolion i reoli eu hiechyd a'u llesiant, gan eu galluogi i fyw'n annibynnol ac yn ddiogel yn eu cartrefi eu hunain.
- Buddsoddi i ddatblygu Pensaernïaeth Darged Genedlaethol unedig sy'n darparu fframwaith strwythuredig ar gyfer integreiddio systemau amrywiol, darparu systemau cofnodi electronig, a sicrhau gofal diogel ac effeithiol i bawb yng Nghymru.
- Buddsoddi i sefydlu digidol fel haen sylfaenol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol drwy ddatblygu achos buddsoddi a map ar gyfer y genhedlaeth nesaf o Gofnodion Iechyd Electronig, gan alluogi rhannu gwybodaeth yn ehangach ar draws lleoliadau gofal iechyd.
- Buddsoddi yn yr Adnodd Data Cenedlaethol, llwyfan diogel yn y cwmwl sy'n cyfuno data o bob rhan o'r GIG a sefydliadau gofal cymdeithasol yng Nghymru, gan gefnogi gwell gofal, dadansoddi a chynllunio, ymchwil a darparu gwasanaethau drwy ddata hygyrch, cyson sy'n cael ei lywodraethu.
- Mae'r buddsoddiad hwn yn sicrhau parhad seilwaith digidol hanfodol ac mae'n sail i'r uchelgais genedlaethol ar gyfer gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol digidol integredig ledled Cymru.

5.4 Cynllunio Tymor Hir

Gan fod Ysgrifennydd y Cabinet yn amcangyfrif bod angen £1 biliwn bob blwyddyn, beth yw strategaeth buddsoddi cyfalaf tymor hir Llywodraeth Cymru, ac a yw'n ystyried cynllun seilwaith 10 mlynedd y GIG yn unol â chais rhanddeiliaid?

Ymateb:

- Mae GIG Cymru wedi ymgymryd â darn sylweddol o waith i nodi blaenoriaethau strategol ac wedi datblygu fframwaith blaenoriaethu i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau. Mae hyn yn darparu dull strwythuredig o werthuso anghenion buddsoddi ar draws y system.
- Nododd ymarfer blaenoriaethu cyfalaf y GIG bron 200 o gynlluniau yr oedd sefydliadau yn dymuno bwrw ymlaen â hwy. Y gofyniad cyfalaf dangosol dros

10 mlynedd (ac eithrio Ysbyty Athrofaol newydd Cymru) oedd tua £10bn dros gyfnod o 10 mlynedd. Mae gofyn am £1bn y flwyddyn yn ddwbl dyraniad cyfalaf presennol y GIG— mae penderfyniadau anodd wedi'u gwneud i nodi pa gynlluniau i wrw ymlaen â hwy.

- Ochr yn ochr â hyn, mae rheoli disgwyliadau yn hanfodol, gan fod angen rhagor o waith i fireinio a deall yr anghenion buddsoddi, yn enwedig ar y safleoedd ysbytai hynaf ledled Cymru. Bydd hyn yn sicrhau bod cynllunio yn y dyfodol yn realistig ac yn ymateb i ofynion newidiol y gwasanaeth a chyfyngiadau ariannol.
- Mae datblygiadau cyfalaf sylweddol wedi cael eu codi gan sefydliadau, er nad yw'r rhain yn cael eu hystyried yn fforddiadwy o fewn rhaglen gyfalaf y GIG. Mae'n debygol y byddai angen cefnogi rhaglenni adnewyddu mawr, newydd neu sylweddol drwy lwybrau cyllido amgen megis y Model Buddsoddi Cydfuddiannol sy'n cefnogi Canolfan Ganser newydd Felindre; benthyca arall neu drwy gyfalaf ychwanegol naill ai o flaenoriaethu'r GIG dros feysydd eraill neu drwy fenthyca pellach.
- Mae holl sefydliadau'r GIG am foderneiddio eu hystad, fel y nodir yn ymarfer blaenoriaethu cyfalaf y GIG ac a adlewyrchir yn y ffigurau cynnal a chadw ôl-gronedig. Wrth inni symud ymlaen mae'n hanfodol inni ystyried cynlluniau seilwaith digidol a ffisegol gyda'i gilydd. Bydd hyn yn sicrhau bod yr adeiladau maint cywir a phenodol yn cael eu datblygu, sy'n cefnogi ffyrdd newydd o weithio sy'n cyd-fynd â strategaethau digidol clir.

Manylion cyllid penodol ar gyfer hosbisau a gofal diwedd oes

Ymateb:

- Rydym yn dyrannu £3.170m i gefnogi'r sector hosbisau yn 2026-27. Mae hyn yn cynnal yr ymrwymiad a wnaethom yn 2025-26 a bydd y cyllid hwn yn rheolaidd, oherwydd rydym yn cydnabod pa mor bwysig ydynt o ran cefnogi'r GIG a phawb y mae angen gofal diwedd oes arnynt.
- Mae £9m o gyllid wedi'i glustnodi eisoes ym mhrif ddyraniad y GIG sy'n cefnogi gofal lliniarol, cymorth profedigaeth a gofal a gomisiynwyd oddi wrth hosbisau.
- Rydym yn darparu £1m drwy Perfformiad a Gwella'r GIG ar gyfer y Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Gofal Lliniarol Diwedd Oes, sy'n darparu arweinyddiaeth a chefnogaeth genedlaethol ac sy'n gweithredu fel fforwm i fwrw ymlaen â newid ymlaen ac yn goruchwyllo ymdrechion byrddau iechyd i gyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella gofal diwedd oes yng Nghymru.
- Rydym yn darparu £1m i Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, i gefnogi pobl sy'n agosáu at ddiwedd eu hoes. Mae hyn yn helpu i ariannu ymgynghorwyr meddygaeth liniarol, meddygon arbenigol dan hyfforddiant, ac arbenigwyr nyrsio clinigol sy'n canolbwyntio ar wella ansawdd bywyd drwy

reoli symptomau, cymorth seicolegol, a chynllunio gofal sy'n canolbwyntio ar y claf.

- Rydym hefyd yn darparu'r Grant Cymorth Profedigaeth gwerth £1m, sy'n darparu cyllid wedi'i dargedu i sefydliadau profedigaeth y trydydd sector i wella gofal profedigaeth ledled Cymru.